# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 13 MEHEFIN 2024 am 2:00 y. p. | THURSDAY, 13 JUNE, 2024 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor    **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis, Llio A. Owen,
Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 27 Chwefror 2024
- 12 Mawrth 2024
- 21 Mai 2024

**3** **MONITRO PERFFORMIAD:CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2023/24** (Tudalennau 19 - 32)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4** **HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL BLYNYDDOL 2023/24** (Tudalennau 33 - 60)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**5** **DOGFEN GYFLAWNI BLYNYDDOL 2024/25** (Tudalennau 61 - 76)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**6** **GRWP TASG A GORFFEN SGRIWTINI:GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL (DANGOSYDD PERFFORMIAD ALLWEDDOL 29) - ADRODDIAD TERFYNOL** (Tudalennau 77 - 94)

Cyflwyno adroddiad y Grwp Tasg a Gorffen Sgriwtini.

**7** **BLAEN RAGLEN WAITH 2024/25** (Tudalennau 95 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2024

**YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd) (yn y Gadair)
Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)

Cynghorwyr Geraint Bebb, R. Llewelyn Jones, Llio A. Owen, Keith Roberts, Ieuan Williams, Arfon Wyn.

Aelodau Cyfetholedig: John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd), Neville Evans (Aelod Portffolio ar gyfer Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Gary Pritchard (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai), Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid).

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
Swyddog Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Douglas Fowlie, Aled Morris Jones, Jackie Lewis, Mr Rhys H. Hughes (Dirprwy Brif Weithredwr), Mr Arwel Owen (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Bethan H. Owen (Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg) Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini (Arsylwi)

---



DRAFT

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Douglas Fowlie, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones. Cafodd y Cynghorydd Sonia Williams ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Sonia Williams ddatgan diddordeb personol yn unig ar sail ei pherthynas i'r Aelod Portffolio Cyllid.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir –

- 16 Ionawr 2024 (cyfarfod y bore)
- 16 Ionawr 2024 (cyfarfod y prynhawn)

## 3 GOSOD CYLLIDEB 2024/25 – CYNIGION AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW DRAFFT TERFYNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn gosod y cyd-destun ar gyfer y broses o osod Cyllideb 2024/25, ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau i'w craffu wrth werthuso cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb refeniw. Mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a gafodd ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror, 2024, lle cafodd y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25 eu hadolygu am y tro olaf a'u cymeradwyo cyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 7 Mawrth 2024, wedi'i atodi yn Atodiad 1.

Bu i'r Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, amlinellu cyd-destun y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, gan nodi bod y Pwyllgor gwaith wedi cynnig cyllideb ar gyfer 2024/25 o £184.219m yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2024, ac oherwydd darpariaeth y Cyllid Allanol Cyfun o £126.973m, byddai angen cynnydd o 10.9% yn y Dreth Gyngor ac y byddai'n rhaid defnyddio gwerth £4.425m o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn cydbwyso'r gyllideb. Roedd y cynigion gwreiddiol ar gyfer y gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys arbedion/gostyngiadau yn y gyllideb, gan gynnwys gosod cap ar y cynnydd mewn chwyddiant o'r gyllideb ddynodedig i ysgolion o 2.5%. Yn dilyn hynny, cwblhawyd proses ymgynghori gyhoeddus fer ar gynigion y gyllideb, ac mae'r canlyniadau wedi'u crynhoi yn Atodiad 2 yr adroddiad, gydag addysg ac ysgolion, cefnogi plant ac oedolion bregus, a chasglu gwastraff ac ailgylchu ymhlith prif flaenoriaethau'r ymatebwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams fod nifer o ddatblygiadau wedi digwydd ers cyflwyno'r cynigion gwreiddiol ar gyfer cyllideb drafft 2024/25, gan gynnwys cau pen y mwdwl ar benderfyniadau'n ymwneud â'r gyllideb mewn perthynas â chyrff sy'n codi ardollau a sefydliadau eraill sy'n derbyn cyfraniad gan y Cyngor, cynnydd o £332k yng Nghyllid Allanol Cyfun Ynys Môn yn dilyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i gynnydd mewn cyllid ar gyfer cynghorau yn Lloegr, a throsglwyddo tri grant refeniw i'r setliad (para 5.4). Wrth lunio'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb, adolygwyd nifer o gyllidebau ac mae hyn wedi rhoi ychydig o hyblygrwydd i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch y cynnig terfynol. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hegluro yn adran 5.5. yr adroddiad, ac mae effaith yr holl newidiadau ar y gyllideb refeniw i'w weld yn Nhabl 2, paragraff 5.6, sydd wedi arwain at gyllideb refeniw diwygiedig ar gyfer 2024/25 o £183.459m gyda chyllid diwygiedig o £184.82m sy'n rhoi cyllid gwarged o £1.373m.

O ran yr amrywiaeth o opsiynau a gafodd eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith i gyd-fynd â'r cyllid diwygiedig yn y gyllideb ddiwygiedig, mae'r defnydd o arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2024/25 yn sylweddol, ai dyma'r swm uchaf sydd wedi'i gynnig ers nifer o



DRAFFT

flynyddoedd. Argymhelliad y Swyddog Adran 151 yw na ddylai lefel yr arian wrth gefn ddisgyn dan 5% o'r gyllideb refeniw net, sef yr isafswm o arian wrth gefn cyffredinol sydd wedi'i osod gan y Pwyllgor Gwaith. Ar ôl ystyried yr holl ffactorau, mae cynigion y gyllideb refeniw derfynol gan y Pwyllgor Gwaith yn addasu'r cynigion gwreiddiol fel y nodir isod, ac mae'n arwain at gyllideb refeniw net ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 o £184.164m, sy'n cael ei ariannu fel y gwelir yn Nhabl 3 yr adroddiad -

- Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi lleihau i 9.5 %, ac mae 0.9% yn berthnasol i'r cynnydd yn lefi'r Awdurdod Tân, ac mae 8.6% yn berthnasol i ofynion cyllidebol y Cyngor. Mae'r cynnydd yn gyffelyb i gynnydd yn y Dreth Gyngor mewn awdurdodau eraill yng ngogledd Cymru.
- Mae'r cap ar y cynnydd chwyddiannol i ysgolion wedi gostwng o 2.5% i 1.5%. Yn ychwanegol at hyn, mae £200k wedi'i danwario yng nghyllideb eleni a bydd yn dychwelyd i falansau ysgolion ar ddiwedd 2023/24, sy'n cyfartalu i 0.4% pellach, sy'n golygu mai'r 1% o ostyngiad gwirioneddol fydd yn cael ei weithredu yng nghyllidebau ysgolion.
- Nid yw'r arbedion o £100k ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu gweithredu yn 2024/25.
- Mae £50k o'r arbedion arfaethedig mewn perthynas â gwasanaethau cymorth gofal cymdeithasol anstatudol yn cael ei gadw i ariannu'r costau trosiannol a brofwyd wrth ail-fodelu'r gwasanaeth.
- Bydd £46k yn cael ei ychwanegu i'r gyllideb glanhau cyfleustodau cyhoeddus i fodloni costau ychwanegol yn dilyn ail-dendro'r gwasanaeth.
- Fod y cais i gyfyngu oriau agor y Canolfannau Hamdden yn cael ei addasu i ganiatáu Canolfan Hamdden Amlwch i aros ar agor dan 3pm yn hytrach na chau am 1pm.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y risgiau sy'n wynebu'r gyllideb a fanylwyd arnynt yn adran 6.3 yr adroddiad, ac fe ymhelaethodd arnynt gyda'r prif risg yn ymwneud â chwyddiant tâl. Gyda'r bil cyflog yn mynd y tu hwnt i £100m, gallai gwall o 1% yn y rhagdybiaeth chwyddiant tâl arwain at sefyllfa gyda diffyg cyllid gwerth £1m yn 2024/25. Ar ôl caniatáu i ddefnyddio £4.425m fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, byddai'r balans diwygiedig yn disgyn i £10.79m neu 5.88% o'r gyllideb refeniw net, sydd yn uwch na'r isafswm o 5% a osodwyd gan y Pwyllgor Gwaith. Ar ôl ystyried lefel arian wrth gefn y Cyngor, balansau ysgolion, arian wrth gefn wedi'i glustnodi a'r gyllideb wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn gadarn i wynebu'r heriau a all godi yn 2024/25 os na fydd y gyllideb refeniw arfaethedig yn gallu bodloni costau gwirioneddol fydd y Cyngor yn eu hwynebu yn ystod 2024/25. Mae'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn sicrhau bod yr adnoddau sy'n wedi'u neilltuo i bob gwasanaeth yn gallu bodloni pwysau cyllidebol presennol a chyflawni'r galw am swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i wasanaethau eu darparu, yn ogystal â chyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol y Cyngor i osod cyllideb gytbwys.

Bu i'r Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, adrodd ar drafodaethau'r Panel o'i gyfarfod ar 22 Chwefror 2024, lle rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25. Y prif fater a drafodwyd mewn perthynas â'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb refeniw oedd y pryderon a godwyd gan benaethiaid ynghylch effaith bosibl y cap o 1.5% ar y cynnydd chwyddiannol ar gyfer ysgolion ar faint dosbarthiadau a lefelau staff, darpariaeth a gweithgareddau allgyrsiol a gwasanaethau llesiant a chymorth emosiynol ar gyfer dysgwyr. Penderfynodd y Panel bod tri maes angen eu craffu ymhellach mewn perthynas â'r gwasanaethau plant a theuluoedd, gwasanaethau oedolion, addysg ac ysgolion. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Panel yn gefnogol o'r cynnig, oni bai am y cyllid ar gyfer ysgolion, y mae wedi argymell y dylid ei addasu a'i osod 1% dan chwyddiant (yn lle'r 1.5% a gynigiwyd) gyda chost o oddeutu £250k yn cael ei ariannu drwy arian wrth gefn.

DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, er y byddai defnyddio'r arian wrth gefn yn hwyluso'r gwaith o weithredu'r addasiadau arfaethedig, byddai defnyddio mwy o arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb refeniw 2024/25 yn golygu na fyddai'r arian a wariwyd ar gael ar gyfer 2025/26, a bydd y bwlch mewn cyllid yn 2025/26 yn cynyddu o £250k.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, ac er mai dim ond rhwng 24 Ionawr a 8 Chwefror 2024 roedd ar gael oherwydd y cyfyngiadau o fewn yr amserlen i osod y gyllideb, cafwyd bron iawn i 900 o ymatebion. Cadarnhaodd fod allbwn yr ymgynghoriad wedi cael ei ystyried yn ofalus wrth lunio'r cynigion terfynol.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor -

- I ba raddau mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw yn ymateb yn briodol i'r pwysau ar y gwasanaeth a'r heriau.
- Effaith, os o gwbl, y cynigion ar ddinasyddion Môn neu unrhyw grwpiau gwarchodedig, ac a oes angen unrhyw fesurau lliniaru i leihau'r effaith.
- A yw'r arbedion arfaethedig yn gyraeddadwy yn ystod 2024/25.
- Y camau mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch a ragwelir mewn cyllid yn 2025/26 a 2026/27, ac a ellir llacio'r ymrwymiad i gynnal balansau'r Cyngor ar lefel sy'n cyfartalu â 5% o'r gyllideb refeniw net pe byddai amgylchiadau'n mynnu hynny.
- A yw'r cynigion i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn creu risg ariannol ar gyfer dyfodol y Cyngor.
- Effaith y cynnydd arfaethedig o 9.5% yn y Dreth Gyngor ar bobl sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd i dalu, ac a oes unrhyw gefnogaeth ar gael ar eu cyfer.
- Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd, cynghorodd yr Aelod Portffolio Cyllid a'r Swyddogion fel a ganlyn –

- Gall nifer o wasanaethau brofi newid yn y galw am ei wasanaethau. Y ddwy gyllideb sy'n profi'r galw mwyaf a'r pwysau mwyaf o ran costau yw Gofal Cymdeithasol Oedolion a'r Gwasanaethau Plant, ac mae £2.9m a £900k ychwanegol wedi'i gynnwys yn y gyllideb mewn perthynas â hyn. Bydd unrhyw gynnig yn y galw am yr hyn sydd wedi'i ddarparu yn y gyllideb yn arwain at orwariant yn y gwasanaethau hyn, a byddai'n rhaid eu hariannu drwy arian cyffredinol a balansau'r Cyngor, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod lefel briodol o arian wrth gefn ar gael, neu gallai Cyngor wynebu heriau ariannol.
- Er bod yr arbedion/gostyngiadau arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi cael eu ffurfio fel nad ydynt yn cael effaith ar unrhyw rai o'r grwpiau gwarchodedig sy'n cael eu crybwyll yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2020 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, ac nad ydynt yn newid gwasanaethau mewn unrhyw ffordd sylweddol, mae perygl y bydd y galw am rai gwasanaethau yn llethu capasiti yn ystod y ddwy flynedd nesaf, gan ei gwneud hi'n anodd i gynnal yr un lefel o ddarpariaeth ar draws gwasanaethau'r Cyngor. Drwy ei brosesau monitro ac adrodd, bydd y Cyngor yn ceisio adnabod pwyntiau pwysau yn gynt a defnyddio'r wybodaeth honno i wneud penderfyniadau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
- Er bod y mwyafrif o'r arbedion arfaethedig yn cael eu hystyried yn gyraeddadwy, mae'r prif pryderon ynghylch hynny yn ymwneud â'r targed o 1m o arbedion drwy leihau staff, fydd yn dod i'r amlwg drwy swyddi gwag ac ailstrwythuro gwasanaethau.
- Bydd y broses o ystyried cyllideb 2025/26 yn dechrau ar unwaith ar ôl i gyllideb 2024/25 gael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn, er mwyn ceisio ymdopi â'r her gymhleth o cyllideb gytbwys, sy'n bodloni anghenion trigolion Môn ac sy'n cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor. Mae llywodraeth leol wedi wynebu nifer o galedi, ac yng ngoleuni

costau uwch a chynnydd mewn galw, mae cynghorau wedi derbyn cyllid digonol i'w galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cymunedau a'r unigolion sy'n dibynnu arnynt. O ran balansau, mater i'r Cyngor yw lefel y balansau cyffredinol yn seiliedig ar gyngor y Swyddog Adra 151, ac fel rheol, mae 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Os bydd yn hanfodol, mae'n bosibl i'r arian wrth gefn fynd yn is na'r lefel hon, a byddai'r asesiad hwnnw'n cael ei wneud bryd hynny, ond byddai'n rhaid cael cynllun i sicrhau bod yr arian wrth gefn yn cyrraedd 5% dros amser o bydd yr arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwn.

- Fod y cynigion ar gyfer y gyllideb a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn sicrhau bod y Cyngor yn llai tebygol o wynebu heriau ariannol (nododd y Swyddog Adran 151 y goblygiadau o gyhoeddi hysbysiad Adran 114, fel y mae nifer o gynghorau yn Lloegr eisoes wedi'i wneud gan nad ydynt yn gallu bodloni eu hymrwymiadau gwario, ac nad oes ganddynt arian wrth gefn i gynorthwyo'r gwariant). Gan nad yw'r cyllid gan Lywodraeth Cymru'n ddigon i alluogi'r Cyngor i fodloni costau a'r galw cynyddol, yr unig opsiwn arall yw i gynhyrchu incwm ychwanegol drwy gynyddu lefel y Dreth Gyngor a defnyddio arian wrth gefn ar gyfer y tymor byr, fel arall, efallai na fyddai'r Cyngor yn gallu cydbwyso'r gyllideb.
- Gall bobl sy'n ei chael hi'n anodd i dalu'r Dreth Gyngor fod yn gymwys am gefnogaeth drwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ac mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan Gyngor ar Bopeth a Chanolfan James O'Toole. Er bod dyletswydd ar y Cyngor i gasglu'r Dreth Gyngor, mae'n ceisio ymateb i amgylchiadau pobl a helpu pobl i ddod o hyd i ffyrdd o dalu eu Treth Gyngor, ond dylent gysylltu â'r Cyngor cyn gynted â phosibl os ydynt yn cael trafferth i dalu.
- Bod yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y gyllideb yn gadarnhaol o ystyried yr amserlen fer, ac na chodwyd unrhyw faterion annisgwyl o ran blaenoriaethau'r bobl.

**Ar ôl craffu cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25, ac ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, yn ogystal â chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a safbwynt y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd cefnogi ac argymell y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'u cyflwynwyd, gan dderbyn yr argymhelliad mewn perthynas â chap chwyddiannol ar gyfer ysgolion, gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn argymell ei ostwng i 1% a defnyddio gwerth oddeutu £250k o arian wrth gefn y Cyngor i ariannu hyn.**

## 4 GOSOD CYLLIDEB 2024/25 – CYNIGION AR GYFER Y GYLLIDEB GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'w ystyried gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer y broses o osod cyllideb ar gyfer 2024/25 ynghyd â'r prif faterion a chwestiynau y dylid craffu arnynt wrth werthuso cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb gyfalaf. Bydd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 29 Chwefror, 2024, ac mae'n gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 fydd yn cael ei argymell i'r Cyngor Llawn, ac roedd wedi'i atodi yn Atodiad 1.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, yr adroddiad a chyfeiriodd at yr arian sydd ar gael er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn Nhabl 1 yr adroddiad. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cynnwys incwm a gwariant sy'n ymwneud â stoc tai'r Cyngor, ac ni ellir defnyddio'r arian hwn at unrhyw ddiben arall. Mae'r cyllid Cyfalaf Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 £12k yn uwch na'r hynny a ddyfarnwyd yn 2023/24, ac mae'n cyd-fynd â lefelau ariannu a welwyd yn ystod y 12 mlynedd ddiwethaf. Ni welwyd cynnydd sylweddol yn y cyllid hwn er bod ei werth wedi dirywio'n sylweddol oherwydd chwyddiant yn ystod y cyfnod hwn. Golyga hyn ei bod yn fwyfwy heriol i gynnal a buddsoddi yn asedau cyfalaf y Cyngor. Gweler crynodeb o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn Nhabl 3 yr adroddiad, ac mae werth £43.838m.

DRAFT

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr opsiynau mewn perthynas â gwariant a buddsoddiad cyfalaf yn gyfyngedig oherwydd y cyfyngiadau ar adnoddau cyfalaf. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y hyfywedd o gael gwared ar fenthyca digymorth, ond oherwydd lefelau cyfradd llog a'r ffaith y bydda'r gost o fenthyca digymorth angen ei fodloni drwy ddefnyddio'r gyllideb refeniw, sydd eisoes dan bwysau, mae'r opsiwn hwn wedi cael ei ddiystyru ar gyfer 2024/25. Dim ond estyniad Ysgol y Graig sydd wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Cymunedau sy'n Dysgu ar hyn o bryd. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer Cyfrif Refeniw Tai 2024/25, bydd y buddsoddiad yn y stoc bresennol yn parhau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r SATC, a bydd yn cael ei ariannu fel yr amlinellir yn adran 7 yr adroddiad, sy'n cynnwys elfen o fenthyca digymorth sydd wedi'i drefnu fel rhan o Gynllun Busnes y CRT.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid at gyfarfod y Panel ar 15 Chwefror 2024, lle rhoddwyd ystyriaeth i'r cynigion ar gyfer cyllideb cyfalaf 2024/25. Ymhlith y materion a gafodd eu trafod gan y Panel roedd y diffyg ffynonellau o gyllid cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor ar gyfer prosiectau sylweddol yn ymwneud â stoc, oni bai am y CRT sy'n cael ei wario ar stoc tai'r Cyngor yn unig, yr adnoddau fyddai eu hangen i alluogi'r Cyngor i fuddosddi yn ei asedau yn y tymor canolig, a'r heriau wrth gwblhau prosiectau grant cyfleusterau i'r anabl, sy'n peri goblygiadau o ran gallu'r Cyngor i wario adnoddau ei gyllideb cyfalaf yn brydlon. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a thystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Panel yn cefnogi cynigion cyllideb cyfalaf 2024/25 fel y'u cyflwynwyd, ac argymhellwyd y cynigion i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor -

- A yw strategaeth gyfalaf tymor hir y Cyngor yn cynnwys cynlluniau ar gyfer buddsoddi yn ysgolion uwchradd yr Ynys.
- A yw'r cynigion yn canolbwyntio ar y meysydd y mae angen gwariant a buddsoddiad arnynt fwyaf, o ystyried y diffyg cyllid cyfalaf sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Gyffredinol.
- Sut yr ymdrinnir ag unrhyw arian o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl nad yw wedi'i wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Ymatebodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a'r Swyddogion fel a ganlyn i'r pwyntiau a godwyd -

- Fod Rhaglen Amlinell Strategol yn cael ei datblygu fydd yn gosod cynlluniau'r Cyngor ar gyfer buddsoddi mewn addysg yn ystod y blynyddoedd nesaf, a bydd yn cyfeirio at y sector eilradd. Mae'r Cynllun yn dibynnu ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.
- Fod y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25 yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u gosod yn y Strategaeth Gyfalaf mewn perthynas â'r meysydd lle mae adnoddau cyfalaf yn cael eu gwario gan ystyried hefyd y diffyg cyllid cyfalaf sydd ar gael. Nid oes cynnydd sylweddol wedi'i weld yn y grant cyfalaf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac oherwydd chwyddiant, mae gwerth y cyllid wedi lleihau. Mae'r rhaglen gyfalaf yn canolbwyntio ar gadw asedau'r Cyngor yn eu safon bresennol, ac mae'n ymatebol gan nad yw adnoddau cyfalaf yn ddigon i alluogi'r Cyngor i wneud unrhyw welliannau sylweddol ymhlith ei asedau.
- By unrhyw gyllid o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl nas wariwyd yn ystod y flwyddyn yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae swm y llithriad yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith, lefel y tanwariant a nifer y ceisiadau sy'n disgwyl dyraniad grant.
- Mewn ymateb i argymhelliad ynghylch y posibilrwydd o gael gwared ar yr amodau clustnodi mewn perthynas â'r CRT, dywedwyd wrth y Pwyllgor nad yw'r gyfraith yn caniatáu i'r amod gael ei dorri gan ddefnyddio cyllid y CRT at unrhyw ddiben nad yw'n ymwneud â stoc tai'r Cyngor. Mae arian dos ben y CRT yn cael ei gynhyrchu drwy incwm rhent gyda'r bwriad o ddefnyddio'r arian er budd y tenantiaid.



DRAFT

Dywedodd y Prif Weithredwr bod gan y Cyngor amrywiaeth o asedau, ac oherwydd y diffyg cyllid cyfalaf, nid yw'n gallu cynnal yr asedau i'r ansawdd a safon dymunol. Er bod gan y Cyngor weledigaeth ac amcanion tymor hir ar gyfer ei asedau, mae'r adnoddau sydd ar gael yn ei gwneud hi'n anodd i wireddu'r dyheadau hynny. Mae grantiau cyfalaf ar gyfer prosiectau penodol sy'n cael eu dyfarnu'n aml yn gystadleuol yn dod yn fwyfwy pwysig o ran ychwanegu gwerth i gyllid cyfalaf craidd y Cyngor. Bydd Cynllun Strategol Cyfalaf, Cyllideb Cyfalaf a Chynllun Strategol Rheoli Asedau ar gael i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod yr wythnosau nesaf, fydd yn destun trafodaeth mewn perthynas â blaenoriaethau'r Cyngor a sut y dylid fuddosddi amser ac adnoddau yn ei brosiectau.

**Ar ôl craffu cynigion terfynol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyllideb gyfalaf drafft 2024/25, ac ar ôl ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y cyfarfod, yn ogystal â safbwynt y Panel Sgriwtini Cyllid, penderfynwyd cefnogi ac argymell y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb gyfalaf drafft 2024/25 I'r Pwyllgor Gwaith fel y'u cyflwynwyd.**

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Bu i'r Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, adrodd ar ganlyniad cyfarfod y Panel ar 15 a 22 Chwefror 2024 er mwyn ystyried y cynigion terfynol ar gyfer Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf drafft 2024/25, fel y nodir yn y naratif ar eitem 2 a 3 uchod.

## 5 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn ymgorffori Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, i'w ystyried a'i adolygu.

Rhoddodd y Rheolwr Sgriwtini ddiweddariad i'r Pwyllgor ar ychwanegiadau i'r Blaen Rhaglen Waith mewn perthynas â'r adolygiad ar gais y Pwyllgor ar berfformiad lleol yn erbyn dau o'r dangosyddion perfformiad Gwasanaethau Tai. Mae adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad ar y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024, yn ogystal ag adroddiad gan y Grŵp Tasg a Gorffen mewn perthynas ag ail-osod eiddo'r Cyngor, fydd yn cael ei gyflwyno yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ebrill 2024.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar y fersiwn bresennol o'r blaen rhaglen waith ar gyfer 2023/24, gyda'r ychwanegiadau a nodwyd gan y Rheolwr Sgriwtini.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r blaen rhaglen waith.**

**Cynghorydd Dyfed Wyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2024

**PRESENNOL:**

Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd) (Yn y Gadair)
Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Keith Roberts, Ieuan Williams, Arfon Wyn.

Aelodau Cyfetholedig: Mr John Tierney (yr Eglwys Gatholig), Wenda Owen (yr Eglwys yng Nghymru), Gillian Thompson (Rhiant-lywodraethwr Sector Ysgolion Cynradd)

**Aelodau Portffolio**

Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg).

**WRTH LAW**:

Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 3)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (ar gyfer eitem 3)
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (HP) (ar gyfer eitem 6)
Pennaeth Gwasanaethau Tai (NM)
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (HR) a Thrawsnewid (CE)
Rheolwr Rhaglen a Pherfformiad Corfforaethol (GP)
Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH) (ar gyfer eitem 6)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
Swyddog Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU**:

Cynghorwyr Douglas M. Fowlie (Cadeirydd), Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Sonia Williams, Mr Dylan Williams (Prif Weithredwr).

Aelodau Portffolio – Cynghorwyr Llinos Medi, Neville Evans, Gary Pritchard, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Swyddog Sgriwtini (EA) (Arsylwi)

---

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Douglas Fowlie, cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones. Etholwyd y Cynghorydd R. Llewelyn Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor yn unig.

DRAFT

DRAFT

Croesawodd y Cadeirydd Mr Gwyndaf Parry i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei swydd fel y Rheolwr Cynllunio Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol.

**1 DATGAN BUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant yn ystod y cyfarfod hwn.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2024 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar nodi bod y Cynghorydd Geraint Bebb yn bresennol yn ystod y cyfarfod hwnnw.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH3 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2023/24, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r cerdyn sgorio'n dangos safle'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3 yn erbyn ei amcanion llesiant.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Nododd mai dyma'r adroddiad chwarter tri mwyaf cadarnhaol ers cyflwyno'r cerdyn sgorio fel arf ar gyfer rheoli perfformiad. Mae 91% o'r Dangosyddion Perfformiad yn perfformio yn uwch neu o fewn 5% i'r targed. Mewn perthynas â dangosyddion Rheoli Perfformiad yn benodol, mae 97% yn uwch neu o fewn 5% i'r targed. Dim ond un dangosydd sydd yn Goch ar y cerdyn sgorio. Mae rhai llwyddiannau nodedig wedi'u hamlygu ym mharagraff 4.3 yn yr adroddiad ac mae'r Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaethau Digartrefedd wedi perfformio'n dda yn ogystal, fel y nodir ym mharagraff 4.5 yn yr adroddiad. Mae dangosyddion perfformiad rheoli gwastraff a dangosyddion gwasanaethau cynllunio i gyd yn dangos yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Nodir rhai meysydd sy'n tanberfformio yn ymwneud á nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n derbyn ymateb o fewn yr amserlen, rheoli cwynion gan gwsmeriaid, yr amser a gymerir i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r amser a gymerir i ailosod unedau llety. Mae perfformiad yn gysylltiedig â rheoli perfformiad hefyd yn is na'r targed a'r prif reswm am hynny yw absenoldebau salwch tymor hir. Mae'r pwysau ariannol a'r cynnydd yn y galw am wasanaeth hefyd yn peri risg barhaus. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn monitro'r meysydd sy'n tanberfformio ac mae camau lliniarol / adferol yn cael eu rhoi ar waith i wella perfformiad yn y meysydd hyn, fel y nodir yn yr adroddiad.

Bu i'r Pwyllgor gydnabod y perfformiad cadarnhaol a'r cynnydd a diolchodd y Pwyllgor i bawb a gyfrannodd at y canlyniadau yn ystod Ch3. Wrth graffu ar yr adroddiad trafodwyd y materion a ganlyn –

- Y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith i atal dirywiad pellach o ran y dangosyddion sy'n Wyrdd ar y cerdyn sgorio ar hyn o bryd lle mae'r tuedd ar i lawr.
- A yw cwynion yn cael eu defnyddio mewn modd cadarnhaol ac a yw gwersi'n cael eu dysgu er mwyn gwella prosesau ac ymarfer.
- Y sefyllfa mewn perthynas â diwygio'r cerdyn sgorio i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023-28 a'r amserlen ar gyfer rhoi'r cerdyn sgorio newydd ar waith.

Bu i'r Swyddogion a'r Aelodau Portffolio ymatebi i'r pwyntiau a godwyd fel a ganlyn –

- Mewn perthynas â Dangosydd Perfformiad 10 (Canran y cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff) lle mae'r tuedd ar i lawr nodwyd bod cronfa ddata newydd wrthi'n cael ei rhoi ar waith a bod y gostyngiad oherwydd bod data'n cael ei gofnodi'n wahanol erbyn hyn. Fodd bynnag, oherwydd y newid yn y modd y caiff yr wybodaeth yma ei chasglu mae'n bosib na fydd y Dangosydd Perfformiad hwn yn cael ei gynnwys ar y cerdyn sgorio newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Er bod y dangosyddion rheoli gwastraff yn Wyrdd yn erbyn y targedau,

nid yw dangosydd perfformiad 32 wedi perfformio cystal oherwydd bod cyfraddau ailgylchu'n dueddol o fod yn is dros gyfnod y Nadolig a'r gaeaf. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Gwastraff wrthi'n gweithio â Llywodraeth Cymru i wella cyfraddau ailgylchu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod cyflawni statws Gwyrdd ar gyfer Dangosyddion Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi golygu llawer iawn o waith caled oherwydd y galw sylweddol ac nid oedd yn poeni gormod am gyfeiriad Dangosyddion Perfformiad 15,18 a 23 gan eu bod yn delio â phobl ac felly mae'r galw'n gallu newid o un chwarter i'r llall, felly mae'r perfformiad y dangosyddion hyn yn dal i fod yn iach.

- Mae'r Cyngor yn chwilio am ffyrdd o ddefnyddio data ynglŷn â Chwynion a Chanmoliaethau i wella gwasanaethau a bydd y ffocws ar weithio gyda'r Gwasanaeth TG i ddefnyddio'r system CRM i gefnogi cwynion, ymatebion a'r modd y cânt eu trin yn ogystal â nodi tueddiadau, patrymau a themâu a defnyddio'r wybodaeth i wella prosesau ac ymarfer fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i barhau i wella.
- Mae'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol wrthi'n cael ei adolygu ynghyd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn cael eu cynnwys ynddo a fformat yn y cerdyn sgorio newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod gyda'r nod o sicrhau bod y cerdyn sgorio, a pherfformiad Cyngor, yn cyd-fynd â'r chwe amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor. Y nod yw cyflwyno'r cerdyn sgorion newydd yn ystod sesiwn briffio i aelodau ym mis Ebrill 2024.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch3 2023/24, ac ar ôl nodi ymateb yr Aelodau Portffolio a'r Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynwyd –**

- **Nodi'r adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch3 2023/24 yn cynnwys y meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol mewn perthynas â cheisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n derbyn ymateb o fewn yr amserlen, rheoli cwynion cwsmeriaid, nifer y dyddiau y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a nifer y dyddiad calendr y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i osod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod).**
- **Argymell y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 DANGOSYDDION PERFFORMIAD LLEOL: GWASANAETHAU TAI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, a oedd yn cynnwys diweddariad ar hynt adolygiad y Gwasanaethau Tai i Ddangosydd Perfformiad 28 (nifer y dyddiau calendr y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, yr Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd ar ran y Cynghorydd Gary Pritchard, yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai, a oedd methu â bod yn bresennol oherwydd ymrwymiad arall yn gysylltiedig â'i ddyletswyddau fel aelod portffolio. Cyfeiriodd at ddatganiad a oedd wedi cael ei baratoi ymlaen llaw gan y Cynghorydd Gary Prichard a oedd yn cadarnhau ei fod ef â'r Pennaeth Gwasanaethau Tai wedi bod yn trafod Dangosydd Perfformiad Allweddol 28 ers tro oherwydd pryderon nad oedd y dangosydd yn cyrraedd y targed. Y ddau brif ffactor yw'r penderfyniad i gael gwared ar y prawf modd fel rhan o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau hyd at £10,000, sydd wedi arwain at fwy o geisiadau, a diffyg contractwyr i wneud yr addasiadau. Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r mater olaf, cynhaliwyd digwyddiad "Cwrdd â'r Prynwr" ym mis Rhagfyr 2023. Daeth nifer o bobl i'r digwyddiad a derbyniwyd sawl datganiad o ddiddordeb. Er na chyrhaeddodd y dangosydd y targed yn Ch3 mae'r tuedd yn Wyrdd ac mae nifer y dyddiau calendr wedi gostwng. Bydd y sefyllfa a'r data yn



DRAFT

parhau i gael ei fonitro i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y dangosydd yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai'r cynnydd mewn ceisiadau am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a dywedodd bod achosion yn dod yn fwy cymhleth o ran natur yr addasiadau sydd eu hangen ac felly maent yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau. Nid yw Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar nifer y dyddiad a gymerir i ddarparu'r Grantiau erbyn hyn ac yn lle hynny mae'n canolbwyntio ar wariant ar addasiadau. Mae'r Gwasanaethau Tai wedi bod yn casglu gwybodaeth am berfformiad awdurdodau eraill wrth ddarparu'r Grantiau fel y gall ddefnyddio'r wybodaeth fel meincnod i fesur ei berfformiad yn erbyn cynghorau eraill.

Bu i'r Pwyllgor drafod y materion a ganlyn –

- Yr amserlen ar gyfer cwblhau adolygiad y Gwasanaethau Tai o Ddangosydd Perfformiad 28 a pha elfennau o'r gwaith sy'n weddill.
- A yw cynghorau eraill yn cael yr un broblem wrth ddarparu'r Grantiau.
- I ba raddau y mae angen datrysiad corfforaethol ar gyfer perfformiad yn erbyn Dangosydd Perfformiad 28.

Bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai nodi'r canlynol –

- Mae gwaith ar y gweill i adolygu a diwygio'r polisi a bydd polisi addasiadau newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn diwedd y mis. Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth â'r cwmni sy'n gwasanaethu fel asiant wrthi'n cael ei gytuno'n ffurfiol fel rhan o'r broses. Bwriedir cynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer Therapyddion Galwedigaethol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ebrill fel eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r polisi. Mae'r Gwasanaethau tai wedi dyrannu adnoddau gweinyddol ychwanegol i ddelio â cheisiadau i wella perfformiad yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 28. Nid yw'r rhain yn swyddi newydd ac mae'r dyletswyddau wedi cael rhannu ymysg staff y gwasanaeth.
- Mae awdurdodau eraill hefyd yn gweld cynnydd mewn ceisiadau ac maent yn wynebu problemau tebyg o ran capasiti. Mae'n deg dweud bod nad yw'r heriau yn unigryw i Ynys Môn a'u bod yn gyffredin ledled Cymru. O ran mynd i'r afael â'r mater, er bod y digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2023 wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod contractwyr wedi dangos diddordeb mewn gweithio â'r Cyngor, bydd yn cymryd amser i'r rhain ddwyn ffrwyth.
- Mae'r prif heriau yn ymwneud â'r ffaith bod rhan o'r broses yn ymwneud ag asesu anghenion cleientiaid, llunio cynllun gofal, cael pris ar gyfer y gwaith ac ymgysylltu â'r contractwr i wneud y gwaith. Oni bai ein bod ni'n creu tîm mewnol, tebyg i'r Uned Cynnal a Chadw Tai sy'n gofalu am stoc dai'r Cyngor, mae'r opsiynau ar gyfer ymyrryd neu ddod o hyd i ddatrysiad ar lefel gorfforaethol yn gyfyngedig iawn.

**Penderfynwyd nodi'r cynnydd hyd yma gan y Gwasanaethau Tai wrth adolygu Dangosydd Perfformiad 28 (Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl).**

## 5 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT) 2024-2054

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai, a oedd yn cynnwys Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer 2024 i 2054, i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r CRT yn nodi sut y caiff adnoddau eu gwario i gynnal, gwella a datblygu stoc dai'r Cyngor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Nicola Roberts, yr Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd, ar ran y Cynghorydd Gary Prichard, yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai. Nodwyd bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â Deddf Tai Cymru (2014) sy'n gosod dyletswydd statudol ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru i ddarparu, cymryd cyfrifoldeb dros waith cynllunio ariannol a

rheoli stoc dai'r Cyngor ac mae wedi ymrwymo i gyrraedd Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu tai o ansawdd i drigolion Ynys Môn ac mae ganddo 3,981 o dai yn ei feddiant. Mae'n mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys tenantiaid er mwyn gwella'r gwasanaeth a'r ddarpariaeth.

Trafodwyd y pwyntiau a ganlyn gan y Pwyllgor –

- Y dull ar gyfer dylunio stoc dai'r Cyngor ac i ba radau mae cymeriad a rhinweddau gweledol yn cael eu hystyried wrth ddatblygu tai cyngor newydd.
- Fforddiadwyedd Cynllun Busnes y CRT yng nghyd-destun adnoddau sy'n prinhau.
- A oes modd i'r Cyngor gydweithio â mwy o Gymdeithasau Tai er mwyn darparu mwy o dai cyngor yn unol â'r cynllun 5 mlynedd.
- Y syniad y tu ôl i gynhyrchu Cynllun Busnes 30 mlynedd.
- A yw'r flaenoriaeth i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 yn gyraeddadwy.
- Canran y tai cyngor sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif.

Aeth y Pennaeth Gwasanaethau Tai a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ymlaen i nodi'r canlynol –

- Mae gan y Cyngor raglen ar waith i gynyddu ei stoc dai a hoffai feddwl ei fod yn cefnogi dyluniadau o ansawdd dda a bod y stadau tai y mae'n helpu i'w datblygu yn edrych yn ddeniadol. Cyfeiriwyd at y stad newydd yn Llanfachraeth fel enghraifft o ddatblygiad dymunol sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd o'i gwmpas.
- Nod Cynllun Busnes y CRT yw blaen gynllunio i sicrhau bod gan y Cyngor gynllun hyfyw ar gyfer ariannu ei stoc dai. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynhyrchu digon o elw drwy renti i'w alluogi i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Busnes, yn cynnwys cynnal a chadw'r stoc bresennol i gyrraedd SATC a buddsoddi mewn tai cyngor newydd lle bo modd. Eglurodd y Swyddog Adran 151 y broses ar gyfer profi hyfywedd ariannol y Cynllun Busnes a'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried, yn cynnwys modelu gwahanol opsiynau yn seiliedig ar bob math o ragdybiaethau yn ymwneud â chwyddiant, cynnydd mewn rhenti, cyfraddau llog a chostau. Tra bydd cronfa wrth gefn y CRT yn cael ei defnyddio i ddatblygu tai newydd, wrth i'r gronfa wrth gefn leihau rhagwelir y bydd rhaid benthyg arian ryw bryd yn y dyfodol ac os ydi'r costau'n dal i fod yn uchel bydd rhaid teilwra'r gyfradd ddatblygu yn unol â hynny.
- Mae'r Grant Tai Cymdeithasol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i ariannu tai cymdeithasol yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar fformiwla ac yr un yw'r swm ni waeth faint o gymdeithasau tai y mae'r Cyngor yn dewis cydweithio â hwy. Felly, os ydi'r Cyngor yn dewis cydweithio â mwy o gymdeithasau tai, yr un fydd y dyraniad ond bydd yn rhaid iddo ei rannu'n deneuach.
- Mae oes 30 mlynedd y Cynllun Busnes yn deillio, yn fwy na thebyg, o'r trefniadau benthyca rhwng y banciau a chymdeithasau tai i sicrhau bod dyledion yn cael eu talu dros gyfnod o 30 mlynedd ac maent wedi dod yn rhan o brosesau Llywodraeth Cymru wedi i'r cynghorau a gadwodd eu stoc dai dalu i adael Cynllun Cymhorthdal y CRT. Mae Cynllun Busnes y CRT yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae hefyd yn cael ei gywasgu i gynllun pum mlynedd i ddarparu gwell dealltwriaeth o gynlluniau'r Cyngor yn y tymor canolig.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni SATC 2023. Ef oedd yr ail gyngor yng Nghymru i gyrraedd SATC yn 2012. Cynhaliodd y Gwasanaethau Tai arolwg o'i stoc dai yn 2022/23 i sefydlu gwaelodlin i baratoi ar gyfer y safonau newydd ac mae'n fodlon bod stoc gyfan yn cydymffurfio â'r safonau gwreiddiol lle bo hynny'n rhesymol ymarferol ac eithrio'r rhai a wrthododd neu'r rhai sydd wedi'u dynodi'n fethiannau derbyniol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio i ddatblygu llwybr ynni fel bod cartrefi fodloni'r gofynion o ran effeithlonrwydd ynni. Dywedodd y swyddog Adran 151 bod gan y Cyngor rywfaint o dai na fydd yn gallu

DRAFT

cyrraedd y safonau newydd a'r safonau dilynol yn enwedig mewn perthynas â datgarboneiddio. Bydd rhaid i'r Cyngor adolygu ei stoc dai i weld a oes modd iddo, neu a yw'n gost-effeithiol, buddsoddi ym mhob eiddo fel bod y stoc gyfan yn bodloni SATC 2023.

**Ar ôl craffu ar Gynllun Busnes y CRT 2024 i 2054 penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Cynllun i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.**

## 6 CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU 2024-2029

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 - 2029, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ar ran y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd methu â bod yn bresennol oherwydd ymrwymiad arall yn gysylltiedig â'i ddyletswyddau fel aelod portffolio. Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol, sydd wedi'i resymoli i fod yn addas i bwrpas ac sy'n ddiogel ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae'r Cynllun yn nodi meysydd blaenoriaeth allweddol mewn perthynas ag addasrwydd, cynaliadwyedd, cydweithio, a data, ac mae'n nodi'r risgiau wrth ddarparu'r Cynllun ac yn amlinellu'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo at y Cynllun fel cynllun corfforaethol sy'n cael ei arwain gan y Gwasanaeth Eiddo mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor sy'n gyfrifol am asedau megis ysgolion, canolfannau a chartrefi gofal. Nod y Cynllun yw sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn addas i bwrpas er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd i resymoli eiddo fel bod adeiladau'r Cyngor yn gynaliadwy ac yn cyfrannu at ei ymrwymiad i ddatgarboneiddio a dod yn gyngor sero net. Mae'r Cyngor yn wynebu heriau rheolaeth asedau sylweddol ar hyn o bryd ar adeg pan fo cyllid cyfalaf yn brin ac mae hyn yn cael ei nodi yn y rhagair i'r Cynllun. Mae'n hanfodol bod data a gwybodaeth gywir a diweddar ar gael er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau effeithiol ynglŷn â'i asedau ac yn cyflawni ei amcanion.

Aeth y Prif Swyddog Eiddo ac Asedau ymlaen i sôn mwy am y pedwar maes blaenoriaeth a'r hyn y maent yn ei olygu. Fe amlygodd yr asedau eang ac amrywiol sydd gan y Cyngor, y costau cynnal a chadw sylweddol a'r bwlch rhwng yr hyn yr hoffai'r Cyngor ei wneud a'r hyn y mae'n gallu ei wneud gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.

Mae'r prif bwyntiau a drafodwyd gan y Pwyllgor fel a ganlyn –

- A fyddai'n ddefnyddiol a phriodol pe byddai tabl asedau'r Cyngor yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynglyn â gwerth pob ased, y gwaith cynnal a chadw sydd ei angen fel y gellir parhau i ddefnyddio'r ased a chost y gwaith hwnnw er mwyn i'r cyhoedd gael gwell dealltwriaeth o gostau rhedeg y Cyngor a'r gost o gynnal a chadw asedau.
- Y trefniadau i fonitro cyrhaeddiad a mesur llwyddiant
- Y cyfrifoldeb dros reoli a chynnal a chadw adeiladau rhestredig

Cynghorwyd y Pwyllgor ynglyn â'r canlynol –

- Mae gwaith ar y gweill i gasglu a chrynhoi data i gael darlun gyflawn o asedau'r Cyngor. Fel y nodir yn y rhagair mae angen dros £300m o gyfalaf ar y Cyngor i'w alluogi i foderneiddio a diweddaru ei asedau fel y gall gyflawni ei amcanion strategol dros y 5 mlynedd nesaf. Rhaid i'r Cyngor edrych ar ei anghenion hirdymor wrth reoli ei asedau er mwyn iddo fod yn glir ynglyn â'r buddsoddiad sydd ei angen dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cynllun Strategol Rheoli Asedau gyswllt agos â'r Strategaeth Gyfalaf sy'n nodi'r egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio fel canllaw ar gyfer blaenoriaethau cyfalaf a dyrannu adnoddau ar draws gwasanaethu'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun

DRAFT

Strategol Rheoli Asedau yn cynnwys y seilwaith priffyrdd gan fod cynllun ar wahân ar gyfer hynny.

- Bydd nifer o gynlluniau cyflawni yn gysylltiedig â'r Cynllun Strategol a bydd amserlen ar gyfer cyflawni pob elfen / prosiect a bydd eu cynnydd yn cael ei fonitro drwy brosesau corfforaethol. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Tir ac Asedau hefyd yn cael ei adolygu i sicrhau bod y grŵp yn parhau i fod yn addas i bwrpas.
- Mae rhai adeiladau yn adeiladau rhestredig ac mae'n rhaid ystyried hynny wrth eu haddasu neu eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw, ac mae'n bosib y bydd angen caniatâd adeiladau rhestredig yn ogystal. Y Gwasanaeth Cynllunio, ar y cyd â CADW, sy'n gyfrifol am reoli datblygu mewn perthynas ag adeiladu rhestredig ac mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Eiddo gydymffurfio â'r gofynion mewn perthynas ag adeiladu rhestredig wrth gwblhau gwaith.

**Ar ôl craffu ar y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 i 2029 penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell y Cynllun i'r Pwyllgor Gwaith i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn.**

## 7 BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill 2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Wrth gyfeirio at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Ebrill 2024 cynghorodd y Rheolwr Sgriwtini bod y brif eitem ar y rhaglen (Asesiad o'r Farchnad Dai Leol) wedi'i aildrefnu ac felly argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried canslo'r cyfarfod. Cynigiwyd bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn trafod aildrefnu'r eitem ynghyd â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/24 gan ganslo cyfarfod y Pwyllgor ar 16 Ebrill 2024.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaenraglen Waith.**

**Cynghorydd Dyfed Wyn Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 21 Mai 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Geraint Bebb, Aled M Jones, Dyfed W Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Ieuan Williams, Sonia Williams, Alwen Pennant Watkin, Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Douglas M Fowlie |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Douglas M Fowlie yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dyfed W Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 4 (2023/24) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw'r pedwerydd cerdyn sgorio a'r olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.2** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 4. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Dangosyddion y Gymraeg mewn Ysgolion
- Dangosyddion Canolfan Hamdden Môn Actif a NERS;
- Nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion Rheoli Gwastraff,
- Dangosyddion Priffyrdd; a
- Y Dangosyddion Cynllunio

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

**1.4** Argymhellir y rhain fel a ganlyn:

**1.4.1** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen;
**1.4.2** Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael sy'n NEET; ac
**1.4.3** Cyfartaledd y diwrnodau a gymerir i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)

**1.5** Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| 2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall |
|---|
| Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor |

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

4.1 Mae 92% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod naill ai'n rhagori ar eu targed perfformiad neu o fewn 5% i'w targedau sy'n adroddiad cadarnhaol ar ddiwedd Ch4. Pa sicrwydd y gellir ei roi i'r Pwyllgor y bydd y 3 dangosydd sy'n weddill yn gwella ymhellach?

4.2 Pa drefniadau sydd mewn lle i gyflwyno Cerdyn Sgorio Corfforaethol diwygiedig i sicrhau aliniad gyda Chynllun y Cyngor: 2023-2028?

4.3 Mae rhai gwasanaethau yn parhau i brofi galwadau a phwysau cynyddol. Sut mae'r rhain yn cael eu hystyried fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor?

4.4 Mae'r adroddiad yn trafod tanwariant a ragwelir o tua £1.740m ar gyfer 2023/24. I ba raddau y bydd y sefyllfa hon o gymorth i'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25?

**5. Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn adnabod anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant, ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

5.2 Mae'r adroddiad monitro cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor. Mae'n darparu'n deallusrwydd er mwyn galluogi'r Cyngor i ddilyn agwedd ragweithiol tuag at reoli perfformiad ac

felly, mae'r adroddiad yn adnabod unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

5.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch4

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 4

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2023/24 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2024 ac a dderbyniwyd ganddo.)
- Cynllun y Cyngor 2023-2028

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2023/24)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae ein Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn nodi anghenion lleol a blaenoriaethau llesiant ac mae'n gosod ein nodau a'n hamcanion ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1.2 Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio'n cael ei ddefnyddio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) wrth gyflawni gweithgareddau dyddiol y Cyngor sydd yn sylfaen i gyflawni Cynllun y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth er mwyn galluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, felly, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth er mwyn gyrru a sicrhau gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

1.3 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a bydd (ynghyd â'r adroddiad hwn) yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n monitro perfformiad yn cyd-fynd â thri amcan llesiant presennol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau bob pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio bob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).

2.3 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

2.4 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer pob adran o'r cerdyn sgorio isod, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol y Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adran 151:


- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae’r mwyafrif o ddangosyddion (83%) yn yr adran hon, y mae eu targedau’n cael eu monitro, yn perfformio’n dda yn erbyn targedau (CAG Gwyrdd neu Felyn). Amlygir rhai o’r pwyntiau allweddol isod.

3.2 Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor yn Ambr yn erbyn ei DPA presenoldeb staff gyda 9.41 diwrnod wedi'u colli i absenoldeb fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn erbyn targed o 8.75 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb fesul FTE

Roedd y targed heriol o 8.75 diwrnod fesul FTE allan o gyrraedd eleni yn rhannol oherwydd salwch cysylltiedig â Cofid na chafodd ei gynnwys wrth osod targed y flwyddyn. Yn gyffredinol, mae'r perfformiad yn parhau i fod yn un da iawn o'i gymharu ag eraill yng Nghymru.





3.3 Nid oedd y dangosyddion a gafodd eu monitro o fewn yr adain Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw achos o bryder mawr gyda’r dangosyddion yn perfformio’n dda yn erbyn targedau ar y cyfan ac eithrio dangosydd 09.

3.3.1 Cydnabyddir bod angen gwaith pellach o ran dangosydd 09 – % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen – sy'n dangos bod 80.1% o'r ymatebion o fewn yr amserlen yn erbyn targed o 90%. Mae'r perfformiad hwn yn gynnydd bach ar y perfformiad a ddangoswyd yn adroddiad cerdyn sgorio Ch3 (79%) ac mae'n well na'r 72% a gofnodwyd ar gyfer 2022/23.

Cafwyd cyfanswm o 1,002 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn, sy’n gynnydd ar yr 854 o geisiadau yn 2022/23 a’r 824 o geisiadau yn 2021/22. Mae'r cynnydd mewn ceisiadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau a staff i ymateb i'r ceisiadau o fewn yr amserlen, a hynny’n ychwanegol at y pwysau gwaith dydd i ddydd.

Mae gwaith cyffredinol i'w wneud o hyd i ganfod sut i leihau'r bwlch o 10% rhwng y perfformiad presennol o 80% a'r targed o 90%, yn enwedig pan nad yw'r perfformiad ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth wedi bod dros 80% am y 4 blynedd diwethaf o fonitro.




3.4 Mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £1.740m ar gyfer y flwyddyn fydd yn dod i ben 31 Mawrth 2024.

3.5 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24, wynebodd y cyngor nifer o faterion, sydd wedi effeithio'n sylweddol ar sefyllfa ariannol y cyngor a'r gallu i ragweld y sefyllfa ariannol yn gywir. Mae'r rhain yn cynnwys:-

3.5.1 Anawsterau parhaus o ran recriwtio staff, mae hyn wedi gadael nifer o swyddi yn wag am gyfnod, er y dylid nodi y gofynnwyd i'r Gwasanaethau yn ystod ail ran y flwyddyn i geisio cadw'r swyddi'n wag mor hir â phosibl, er mwyn lleihau costau a gwella sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.5.2 Mae'r galw am wasanaethau yn parhau i fod yn gyfnewidiol, yn enwedig ym meysydd gofal cymdeithasol oedolion a phlant, atal digartrefedd a gwasanaethau addysg (ac eithrio ysgolion). Mewn rhai gwasanaethau, gall cost pob achos fod yn sylweddol a gall newid bach yn y nifer o achosion gael effaith sylweddol ar gost gyffredinol y gwasanaeth.

3.5.3 Mae cyflwr asedau'r Cyngor (adeiladau, cerbydau, seilwaith ac offer TG) wedi gweld cynnydd mewn gwariant brys sydd ei angen i gynnal asedau i gyflwr gweithredol derbyniol. Gall y gwariant hwn fod heb ei gynllunio o flaen llaw a gall effeithio'r rhagolygon ariannol.

3.6 Mae'r alldro ariannol cyffredinol, ynghyd ag incwm annisgwyl a lleihau risgiau sydd wedi caniatáu rhyddhau arian wrth gefn a glustnodwyd yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor, yn gadael y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gryf gyda lefel iach o falansau cyffredinol.

3.7 Fel y gwelwyd yn 2024/25, mae'r cyngor ar hyn o bryd yn dibynnu ar ddefnyddio ei falansau cyffredinol i osod cyllideb gytbwys ac mae hyn yn caniatáu'r amser sydd ei angen i'r cyngor newid darpariaeth ei wasanaethau. Mae canlyniadau blwyddyn ariannol 2023/24 yn caniatáu i'r cyngor ystyried, unwaith eto, y defnydd o gronfeydd wrth gefn fel ffynhonnell ariannu tymor byr wrth osod cyllideb 2025/26. Er ei bod yn annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu dyrannu lefel y cronfeydd wrth gefn, fel yn y blynyddoedd blaenorol, mae'n dal i fod yn gymorth sylweddol i gwrdd â'r her o osod cyllideb gytbwys yn 2025/26 a 2026/27.

3.8 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol i'w gweld yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch4' a'r 'Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Ch4' sydd i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 25 o Fehefin.

3.9 Nid oedd gwybodaeth y cyfrifon cyfalaf (dangosydd 02) ar gael cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn. Bydd y wybodaeth hon ynghyd â dadansoddiad llawn o'r Gyllideb Gyfalaf ar gael yn yr adroddiad 'Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Ch4' a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Gorffennaf.

3.10 Mae canlyniadau'r dangosyddion ar gyfer yr adran hon yn rhoi sicrwydd rhesymol bod y Cyngor yn rheoli ei bobl, ei gwsmeriaid a'i gyllid mewn modd a ddisgwylir gan Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd y flwyddyn mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (95%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae hyn yn gynnydd ar y perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2022/23 a 2021/22, gyda'r ddau yn 91%.

4.2 Mae dangosyddion sy'n ymwneud â'n hamcan llesiant, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi perfformio'n dda gyda 91% un ai'n wyrdd neu felyn erbyn eu targedau. Fodd bynnag, roedd un dangosydd yn Goch yn erbyn y targed (gweler adran 4.4).

4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd dan yr amcan hwn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

4.3.1 Mae 100% o'r disgyblion wedi'u hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac yn cwrdd â disgwyliadau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y cyngor.

4.3.2 Mae 71 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50 (dangosydd 11). Unwaith eto mae defnyddio Premiwm Treth y Cyngor wedi bod yn fuddiol yma ac mae'n gadarnhaol bod 71 yn llai o eiddo gwag yn ein cymunedau.

4.3.3 O’r 65% o gleientiaid a gwblhaodd y rhaglen NERS hyd at ddiwedd Rhagfyr 2023, roedd 81% yn credu bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd (dangosyddion 9 a 10). Nid yw wedi bod yn bosibl casglu data rhwng Ionawr a Mawrth 2024 oherwydd bod y system yn cael eu datblygu ledled y wlad.

4.4 Methodd un dangosydd dan amcan llesiant 1 i gyrraedd ei darged


4.4.1 Dangosydd 3 – Canran y disgyblion Blwyddyn 11 sy’n gadael nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (NEET) – gyda pherfformiad o 4% yn erbyn targed o 3%. Mae hyn yn ostyngiad ar y 3.2% yn ystod 2022/23 a’r 2.6% yn ystod 2021/22.

Cyhoeddwyd y dangosydd hwn gan Gyrfa Cymru ar ôl cymryd ciplun o'r rhai sy'n NEET ac a oedd yn gadael blwyddyn 11 ym mis Gorffennaf 2023. Mae'r perfformiad wedi arwain at gael ei osod yn y chwartel isaf ledled Cymru ar gyfer y dangosydd hwn am y flwyddyn. Cyfartaledd Cymru oedd 2% a chyfartaledd Gogledd Cymru oedd 2.3%.

Mae gennym dealltwriaeth gref o’r nifer o ymadawyr blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) ar Ynys Môn, o’r holl ymadawyr blwyddyn 11 (645), dim ond tri y methwyd i gysylltu dim ond 3 (llai na 0.5%) y methwyd i gysylltu â nhw.

Mae gennym system glir a chadarn i fonitro’r holl bobl ifanc NEET rhwng 16-18 oed. Mae gennym dîm o gynghorwyr ymgysylltu allgymorth sy’n sicrhau bod ein data’n cael ei olrhain ac yn gweithio’n agos gyda phartneriaid statudol i sicrhau ein bod yn cynnig cymorth.

Bydd y gwasanaeth yn treialu hwb ymyrraeth gynnar yn Amlwch yn ogystal ag adnabod cyflogwyr lleol a all ddarparu profiad gwaith gwerthfawr i’r bobl ifanc.




4.5 Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2** lle rydym yn cefnogi oedolion bregus a theuluoedd i'w cadw'n ddiogel, iach ac mor annibynnol â phosibl yn dangos perfformiad da unwaith eto. Methodd un dangosydd i gyflawni ei darged ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r dangosyddion sy'n weddill i gyd yn Wyrdd yn erbyn targedau (93%).

4.6 Dyma rai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn:

4.6.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

4.6.2 Mae holl ddangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd (dangosyddion 20 – 25) yn uwch na'r targedau am y flwyddyn, (dangosydd 23) gyda pherfformiad o 142 diwrnod ar gyfartaledd yn arbennig o dda o gymharu â blynyddoedd blaenorol




4.6.3 Mae'r Dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 + 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai hefyd wedi dangos perfformiad da gyda'r ddau yn wyrdd yn erbyn targedau.

4.7 Fodd bynnag, nodwn fod un dangosydd yn Ambr yn erbyn y targed. Mae'r dangosydd dan sylw wedi cael ei drafod mewn adroddiadau chwarterol blaenorol drwy gydol y flwyddyn.

4.7.1 Dangosydd 28 – Mae nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn Goch gyda pherfformiad o 187 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod.

Mae'r perfformiad hwn yn gynnydd ar y 193 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2022/23, ond mae dal yn danberfformiad o'r 172 diwrnod a welwyd yn 2021/22.

Trafodwyd y rhesymau am y tanberfformiad ar gyfer y dangosydd yn adroddiad cerdyn sgorio Ch3.

Roedd y dangosydd hefyd yn destun adroddiad arolygu archwilio mewnol a drafodwyd yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ebrill 2024. Arweiniodd yr archwiliad at sgôr sicrwydd cyfyngedig gyda 2 mater sylweddol a 4 mater cymedrol yn cael eu hamlygu.
Un mater a nodwyd oedd nad oedd cyfrifiad y dangosydd hwn yn mesur yr holl broses o wneud cais am DFG, ac felly nid yw'r cyfnod o'r pwynt cyswllt cyntaf gyda'r cleient hyd nes bod y gwasanaeth Tai wedi derbyn y cais wedi'i gynnwys y dangosydd. Felly, dim ond ar ôl cytuno arnynt y mae'r dangosydd yn cyfrifo'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau addasiadau.

Yn dilyn peth ymchwil a wnaed gan y Gwasanaeth Tai, mae'n amlwg bod cynghorau Gogledd Cymru i gyd yn mesur y dangosydd hwn ychydig yn wahanol i'w gilydd gyda llawer yn monitro'r un peth â ni. Fodd bynnag, o'r data a gasglwyd ar draws cynghorau Gogledd Cymru, mae'n galonogol bod perfformiad y dangosydd hwn yn llwyddo.


Bydd y gwasanaeth yn rhoi'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar waith i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr adroddiad archwilio mewnol. Yn ogystal â hyn, bydd teitl y dangosydd yn cael ei newid i adlewyrchu'r dull cyfrifo presennol yn y Cerdyn Sgorio ar gyfer 2024/25, hyd nes y bydd modd cyfrifo'r broses gyfan unwaith y bydd y camau gweithredu o'r adroddiad archwilio wedi'u rhoi ar waith.

4.8 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn arbennig, gyda phob dangosydd yn Wyrdd ac yn uwch na'r targed.

4.9 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn cynnwys:

4.9.1 Mae'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31 – 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Roedd 97.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Roedd canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 66.1% ar gyfer y chwarter.

4.9.2 Mae'r dangosyddion cynllunio (dangosyddion 35 - 37) i gyd yn Wyrdd yn erbyn y targed. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos bod gwelliannau a roddwyd ar waith yn 2022/23 yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad. Mae perfformiad y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlen yn 96% ar gyfer y flwyddyn, sef y perfformiad gorau ar gyfer y dangosydd hwn yn y pum mlynedd diwethaf (91% yn 2022/23, 79% yn 2021/22, 79% yn 2020/21 a 90% yn 2019/20).




4.9.3 Mae'r tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag arolygon cyflwr ffyrdd A, B a C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40) yn Wyrdd yn erbyn targedau ar gyfer y flwyddyn unwaith eto. Mae'r gwelliant mwyaf i'w weld yng nghyflwr ffyrdd B lle mai dim ond 2.3% oedd mewn cyflwr gwael yn 2023/24 o gymharu â 2.6% yn 2021/22 a 2.8% yn 2020/21.

## 5. CASGLIAD

5.1 Mae'n galonogol nodi bod 92% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'u targed neu o fewn 5% i'r targedau ar gyfer y chwarter. Dyma'r cerdyn sgorio sy'n perfformio orau ar gyfer Chwarter 4 ers ei gyflwyno.

5.2 Mae ein perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer yr holl ddangosyddion (35 i gyd) yn dangos bod 20 (57%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 13 (37%) wedi dirywio a 2 (6%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

5.3 Ar y cyfan, mae'n galonogol adrodd bod 89% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro'r Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed am y flwyddyn.

5.4 Mae'r adroddiad yn amlygu rhai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad diwedd y flwyddyn. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Dangosyddion y Gymraeg mewn Ysgolion
- Dangosyddion Canolfan Hamdden Môn Actif a NERS;
- Nifer y tai gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Dangosyddion Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion Rheoli Gwastraff,
- Dangosyddion Priffyrdd; a
- Y Dangosyddion Cynllunio

5.5 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn eu targedau. Amlygir y rhain yn 6.1 isod.

## 6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn eu rheoli a sicrhau gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Y meysydd a argymhellir yw:

6.1.1 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sydd yn derbyn ymateb o fewn yr amserlen;
6.1.2 Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael sy'n NEET; a
6.1.3 Nifer cyfartalog y diwrnod i ddyfarnu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)

## 7. RHESTR TERMAU

7.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

7.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
7.1.2 Ch1 – Chwarter 1
7.1.3 Ch2 – Chwarter 2
7.1.4 Ch3 – Chwarter 3
7.1.5 Ch4 – Chwarter 4
7.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed
7.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
7.1.8 FTE – Cyfwerth ag Amser Llawn
7.1.9 FOI – Rhyddid Gwybodaeth
7.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
7.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
7.1.12 DTL – Anodd eu Gosod
7.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
7.1.14 CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
7.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2023/24

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd Ch / Q Trend | Canlyniad / Actual | Targed Ch / Q Target | Tuedd Bl / Yr Trend | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3) | | ↓ | 92.89% | | - | 91.69% | - |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3) | | ↓ | 86.93% | | - | 85.22% | - |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Coch / Red | ↓ | 4% | 3% | ↓ | 3.20% | 2.60% |
| 4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | | 100% | 100% | → | 100% | - |
| 5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch3) | Gwyrdd / Green | | 70% | 67.5% | ↑ | 68% | 67.8% |
| 6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | | 83% | 75% | - | - | - |
| 7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | Melyn / Yellow | ↑ | 515k | 529k | - | 539k | 388k |
| 8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98.3% | 98% | ↑ | 98% | 98% |
| 9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 65%* | 50% | ↓ | 72% | 47.5% |
| 10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | | 81%* | 80% | ↑ | 78% | 84% |
| 11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 71 | 50 | - | 80 | 91 |
| 12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | → | 6 | 3 | - | 1 | 1 |
| 13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Melyn / Yellow | ↓ | 19 | 18 | ↓ | 16.61 | 13.89 |
| 14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) | | | 80% | | | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 94.57% | 90% | ↑ | 91.69% | 94.78% |
| 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 63.27% | 62% | ↓ | 64.71% | 64.85% |
| 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 17.32 | 19 | ↓ | 16.74 | 14.33 |
| 19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 97.70% | 93% | ↓ | 98.10% | 96.10% |
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.81% | 90% | ↑ | 86.75% | 87.15% |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↓ | 6.21% | 10% | ↓ | 6.15% | 9.79% |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↓ | 10.55% | 15% | ↑ | 14.35% | 5.74% |
| 23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↓ | 142 | 270 | ↑ | 306 | 318 |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.14% | 95% | ↑ | 98.31% | 99.10% |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 91.12% | 90% | ↓ | 93.83% | 85.99% |
| 26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 97.21% | 80% | ↑ | 89.53% | 80.95% |
| 27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.75% | 85% | ↑ | 98.45% | 92.00% |
| 28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Ambr / Amber | ↑ | 187 | 170 | ↑ | 193 | 172.3 |
| 29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Gwyrdd / Green | ↓ | 40 | 40 | ↓ | 35.8 | 28.7 |
| 30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Gwyrdd / Green | ↓ | 1.46% | 1.70% | ↑ | 1.83% | 1.66% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 96.5% | 95% | ↑ | 96% | 95.50% |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Gwyrdd / Green | ↓ | 65% | 64% | ↑ | 63.47% | 62.39% |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.13 | 1 | ↑ | 1 | 0.25 |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | → | 209kg | 220kg | ↓ | 207kg | 223kg |
| 35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Gwyrdd / Green | ↑ | 96% | 90% | ↑ | 91% | 79% |
| 36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↑ | 70% | 65% | ↑ | 47% | 50% |
| 37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Gwyrdd / Green | ↑ | 87% | 80% | → | 87% | 92% |
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.7% | 3% | ↓ | 2.6% | 3% |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 2.3% | 4% | ↑ | 2.6% | 2.80% |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | Gwyrdd / Green | | 7.5% | 9% | ↑ | 7.6% | 8.20% |
| 41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e) | | ↓ | 525.99 | | ↓ | 515.07 | 486.85 |
| 42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd) | | ↓ | 1,861,817 | | ↓ | 1,728,920 | 1,524,961 |
| 43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd) | | ↑ | 783,049 | | ↑ | 790,899 | 786,247 |
| 44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%) | | | +8% | | | +6% | + 26% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch     Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter
*Data - 04/23-12/23
**Mae dangosydd 15 - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed wedi dileu oherwydd bod yr wybodaeth ddim ar gael

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2023/24

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 48 | 67 | 40 | 55 | 43 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 6 | - | 4 | 9 | 6 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | | 12 | - | 13 | 20 | 8 |
| 04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 83% | 80% | 82% | 80% | 88% |
| 05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 80% | 70% | 66% | 75% |
| 06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 16 | - | 27 | 41 | 24 |
| 07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 235 | - | 321 | 189 | 104 |
| 08) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 496 | - | 495 | 658 | 662 |
| 09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Coch / Red | ↑ | 80.1% | 90% | 72% | 79% | 79.4% |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | | ↑ | 26k | - | 59.5k | 51k | 33.5k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | | ↑ | 46k | - | 36k | 66k | 58k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | | ↑ | 27k | - | 26k | 21k | 18.5k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | | ↑ | 25k | - | 9.5k | 11k | 7k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | | ↑ | 110k | - | 100k | 92k | 42k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | | ↑ | 357k | - | 327k | 634k | 1.03M |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 22/23 Result | Canlyniad 21/22 Result | Canlyniad 20/21 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | | | 2395 | - | 2288 | 2202 | 2180 |
| 02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↑ | 9.41 | 8.75 | 9.15 | 8.73 | 6.68 |
| 03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 3.85 | - | 4.54 | 3.70 | 1.94 |
| 04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | | | 5.56 | - | 4.61 | 5.03 | 4.74 |
| 05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | | | 9% | - | 8% | 10% | 6% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Gwyrdd / Green | ↑ | £170,789,000 | £168,712,000 | -1.22% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | | | | | |
| 03) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | ↓ | -£11,048,860 | -£13,211,660 | 19.57% | | |
| 04) Balansau cyffredinol diwedd y flwyddyn a ragwelir | | ↑ | | -£15,614,180 | | | |
| 05) Chost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidebwyd | Melyn / Yellow | ↓ | 2.34% | 2.53% | 0.19% | | |
| 06) Nifer o Wasanaethau rhagwelir yn gorwario mwy na 5% o'i cyllideb | | → | | 1 | | | |
| 07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↓ | | 97.2% | | | |
| 08) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 95.2% | | | |
| 09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | | 100.1% | | | |
| 10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | | 100.1% | | | |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Hunanasesiad 2024 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Adroddiad Hunanasesiad fel sy'n ofynnol o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2021) |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

1. Cefnogi yr adroddiad Hunanasesiad 2024 i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Gwaith

**2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Dyma'r trydydd Hunanasesiad a gynhaliwyd gan y Cyngor Sir yn dilyn mabwysiadu'r cyntaf ym mis Medi 2022. Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

1. Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—
   (a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,
   (b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac
   (c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)
2. lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2024 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Pam fod yr Awdurdod Lleol yn paratoi hunanasesiad corfforaethol blynyddol a sut mae'r broses yn cyd-fynd â'n trefniadau rheoli perfformiad lleol?

2. Mae'r adroddiad yn trafod y newidiadau a wnaed i'r dull hunanasesu a'r templed. Beth fu'r ystyriaethau allweddol sy'n sbarduno'r newidiadau hyn a beth yw'r manteision arfaethedig i'r Cyngor?

3. Mae pedwar o'r 7 maes allweddol yn cael eu hystyried yn "Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau" sy'n sefyllfa gadarnhaol. Pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y tri maes allweddol sy'n weddill sy'n cael eu graddio ar hyn o bryd fel "Yn bodloni disgwyliadau" yn parhau i wella?

## 5. Cefndir / Cyd-destun

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor barhau i adolygu i ba raddau y mae'n cyflawni'r 'gofynion perfformiad', sef i ba raddau y mae:

- arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol;
- mae ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nodwyd monitro perfformiad pob awdurdod lleol ar sail hunanasesiad.

Yn ystod 2023, fe wnaethom adolygu ein hymagwedd at hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Buom yn cydweithio â Gwasanaethau ar draws y Cyngor i addasu'r templed i ganolbwyntio ar saith maes allweddol, yn unol â chymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o broses gwella unrhyw sefydliad, a'i brif ddiben yw hunan-sicrwydd; fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, os caiff hunanwerthuso ei wneud yn dda, y gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac yn wir trigolion.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
| --- |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Fel yr uchod |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Fel yr uchod |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
| --- |
| Mae gan yr hunanasesiad adran benodol ar gynllunio ariannol, mae'n dod i'r casgliad bod gan y cyngor afael gref ar Gynllunio Ariannol a bod ganddo gynllun ariannol clir ar waith i gyflawni gweledigaeth y cyngor yn y tymor byr, canolig a hir. |

| 8 – Atodiadau |
| --- |
| Atodiad A – Adroddiad Hunanasesiad 2024 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Hunanasesiad blynyddol – 2023/24

Hunanasesiad blynyddol y Cyngor Sir, fel y disgwylir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021.

DRAFT

**Paratowyd gan** – Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi**: Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu trydydd hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran –

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol â hynny.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

DRAFT

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.



**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys


Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r ynys.



[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

## Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.




DRAFT

# Ein Dull Hunanasesu

Cafodd y broses o fonitro perfformiad yr holl awdurdodau lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad, ei sefydlu fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r broses hunanasesu yn flynyddol gan gynnwys nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â defnyddio adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2023, gwnaethom adolygu ein dull hunanasesu a gwneud nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Gwnaethom weithio ar y cyd gyda Gwasanaethau ar draws y Cyngor i addasu'r templed er mwyn canolbwyntio ar saith maes allweddol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Y saith prif faes yw:

- Cynllunio Gwasanaeth
- Caffael a Rheoli Contractau
- Cynllunio Ariannol
- Rheoli Risg ac Archwilio
- Cynllunio Gweithlu
- Rheoli Perfformiad
- Rheoli Asedau

Gwnaethom hefyd ganiatáu rhagor o amser fel bo Gwasanaethau'n gallu dechrau'r cyfnod casglu tystiolaeth. Rydym yn gobeithio fod hyn yn cryfhau'r broses yn seiliedig ar ein profiadau o flynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau hunanasesu bob blwyddyn.

DRAFT

Mae hunanwerthuso yn rhan annatod o unrhyw broses i wella sefydliad, a hynny at ddibenion hunansicrhau; fodd bynnag, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod bod cwblhau hunanwerthusiadau i safon hefyd yn darparu sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheolydidon a thrigolion.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) i gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn un o'r 5 maen prawf a restrir isod a chawsant eu herio wedyn ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig a elwir yn broses Adolygu Gwasanaeth:

| Cyfradd Perfformiad | Disgrifiad |
|---|---|
| Rhagorol | Perfformiad sy'n parhau i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau, sy'n dangos cyflawniad rhagorol. |
| Yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Perfformiad sy'n darparu canlyniadau rhagorol y tu hwnt i'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. |
| Yn bodloni disgwyliadau | Perfformiad sy'n bodloni safonau a rhwymedigaethau. |
| Angen mân welliannau | Perfformiad sy'n disgyn dan safonau disgwyliedig ble mae'n rhaid i'r Gwasanaeth ddilyn camau adferol. |
| Angen gwelliannau sylweddol | Perfformiad sy'n parhau i ddisgyn dan safonau disgwyliedig, ble mae'n rhaid i'r Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth roi mesurau adferol brys ar waith. |

Mae Gwasanaethau sydd wedi sgorio eu hunain yn 'Ddigonol' neu 'Anfoddhaol' wedi adnabod meysydd y gellir eu gwella er mwyn perfformio'n well yn y dyfodol. Mae'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad hwn, fodd bynnag, mae rhai wedi'u cynnwys mewn maes gwella ehangach ar gyfer y Cyngor, a bydd yn cael ei reoli gan wasanaethau blaenllaw sydd wedi'u nodi yn 'Meysydd i'w Gwella a Nodwyd' yn yr adroddiad hwn.

Mae meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol yn cael eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan ateb y cwestiynau canlynol mor syml â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella a sut?



DRAFT

# Cynllunio Gwasanaeth

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaeth yn gyfarpar hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n helpu pobl i ddeall ein gwasanaethau, mae'n darparu'r trywydd y dylai'r Cyngor ei ddilyn ac mae'n rhan hollbwysig o'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer darparu gwasanaeth a gwireddu amcanion Cynllun y Cyngor.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad fod gan y Cyngor afael da ar Gynllunio Gwasanaeth, yn ogystal â gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol a sut wireddu'r weledigaeth honno.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir** – Mae gan y cyngor weledigaeth glir ar waith gydag amcanion mesuradwy ar gyfer darpariaeth gwasanaeth, sy'n cyd fynd ag anghenion y gymuned a gofynion deddfwriaethol | • Cynllun y Cyngor<br>• Gwerthoedd y Cyngor<br>• Cefnogi strategaethau a chynlluniau<br>• Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 12-16 |
| **Ymgysylltu â Rhanddeiliaid –** Mae'r cyngor yn ymgysylltu'n gyson gyda thrigolion, busnesau a rheini Ynys Môn | • Ymgynghoriadau cyhoeddus<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 |
| **Penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth** – Mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddadansoddiadau data wedi'i gefnogi, ymchwil ac anghenion tymor byr a hir y gymuned | • Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor<br>• Cofnodion Pwyllgor y Cyngor |
| **Arloesi ac Addasu –** Mae gan y cyngor enw da ar gyfer arloesi ac mae'n addasu'n dda i amgylchiadau sy'n newid | • Ymatebion i RAAC<br>• Ynys Wybodus am Drawma<br>• Cartrefi Clyd – Cartrefi Grwpiau Bach<br>• Cynllun dialysis gartref<br>• Unedau Busnes yn Llangefni a Chaergybi<br>• Gwobr Genedlaethol Rhaglen Gymunedol Ynys Môn |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Gwobr Rhagoriaeth Maethu<br>• Gwobr genedlaethol rheoli llifogydd naturiol Dwyran<br>• Porthladd Rhydd<br>• Cronfa Ffyniant Bro Caergybi |
| **Dyrannu Adnoddau** – Mae gan y cyngor hanes da o reoli ei adnoddau dynol ac ariannol, er mwyn cyflawni ei amcanion. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| **Cydymffurfio gyda Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddio –** mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth berthnasol, rheoliadau a dyletswyddau statudol, ac mae'n sicrhau atebolrwydd a chywirdeb yn ei brosesau gwneud penderfyniadau. | • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol<br>• Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |





Poblogaeth o 68,900 (Cyfrifiad 2021)



Mae 76% yn actif yn economaidd



Mae 74% o bobl oed gweithio mewn




Cyfartaledd o 48 oed

(Cyfartaledd yng Nghymru yn 42 oed)

DRAFT

# Cynllunio Ariannol

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dynodi adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at 1 mlynedd), y tymor canolig (1-3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaeth i'r gymuned.

Mae gan y cyngor afael da ar Gynllunio Ariannol, ac mae cynllun ariannol clir ar waith er mwyn cyflawni gweledigaeth y cyngor yn y tymor byr, canolig a thymor hir.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Rheoli Cyllideb** – Mae gan y cyngor broses rheoli cyllideb gref ar waith sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, ac sydd hefyd yn lleihau'r risg o orwariant neu ddiffyg ariannu. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Sefydlogrwydd Ariannol** – Mae gan y cyngor gronfeydd wrth gefn digidol a lefelau dyled isel perthynol â'i incwm, ac mae'n dangos arferion rheoli arian doeth sy'n sicrhau cynaliadwyedd tymor hir. | • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22 |
| **Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol** – Mae'r cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni'r galw ar y gwasanaeth a gofynion darparu, yn ogystal â chynyddu ei werth am arian. | • Llyfr y Gyllideb<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd** – Mae gan y cyngor broses adrodd ar reolaeth ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb yn chwarterol a datganiad ar gyfrifon blynyddol. | • Datganiad ar Gyfrifon<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 23-24<br>• Proses Gosod Cyllideb |
| **Cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Ariannol** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda rheoliadau ariannol perthnasol, safonau cyfrifo a gofynion cyfreithiol gan gynnwys cyllid craidd a chyllid grant. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Monitro** – Mae'r cyngor yn monitro'n rheolaidd ac yn goruchwylio perfformiad ariannol, gan gynnwys adroddiad ar y gyllideb refeniw bob chwarter, y gyllideb gyfalaf a chyfrifon y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) wrth sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol. | • Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Asesiadau Archwilio** – Mae'r cyngor wedi derbyn adroddiadau archwilio cadarnhaol gan archwilwyr gan gynnwys Archwilio Cymru ac Archwilio Mewnol, sy'n darparu dilysiad annibynnol ar gyfer arferion rheolaeth ariannol. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol<br>• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol |

Cyllideb gwerth £184m gan y Cyngor

Arian Wrth Gefn – £55m/36.7% o arian wrth gefn ar gael i'w ddefnyddio yn 22/23 (Cymru 39.5%)

Gwariant cyffredinol fesul preswylydd 22/23 - £2982 (Cymru £2863)

DRAFT

# Cynllunio Gweithlu

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

### Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gweithlu yn broses lle mae'r cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu ac anghenion y dyfodol yn erbyn ei ymrwymiadau, cynlluniau ac amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw gweithwyr sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, gan fyfyrio ar egwyddor cynllunio tymor hir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan y cyngor ddealltwriaeth gref o gynllunio gweithlu, ac mae ganddo'r gofynion ar waith er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau, cynllunio ac amcanion o safbwynt adnoddau dynol.

### Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Hyfforddiant a Datblygu** – Mae'r cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i staff ymgymryd â hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd i wella sgiliau sy'n galluogi gweithwyr i ddatblygu ac addasu i ofynion gwaith sy'n parhau i newid yn ogystal â gwelliannau technegol. | • Adroddiad blynyddol yr iaith Gymraeg<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19<br>• Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant |
| **Cynllunio Gweithlu** – Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gael y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir yn y lle cywir ar yr adeg gywir, a sicrhau cydymffurfiad gydag amcanion strategol y cyngor a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Mae'r cyngor yn parhau i ddatblygu a gweithredu cynlluniau olyniaeth i adnabod a datblygu arweinwyr y dyfodol a phersonél allweddol, fydd yn sicrhau parhad a chynaliadwyedd. | • Strategaeth Cynllunio Gweithlu<br>• Strategaeth Rheoli Risg Pobl<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |
| **Buddion gwaith** – Mae'r cyngor yn cynnig nifer o fuddio i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gwaith a nifer o bolisïau eraill sydd wedi'u dylunio er mwyn gwella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ymhlith staff. | • Gweithio hyblyg<br>• Cynllun beicio i'r gwaith<br>• Manteision Môn |
| **Adolygu perfformiad** – Mae gan y cyngor system glir ar gyfer mesur perfformiad gweithwyr, cydymffurfiaeth gyda strategaethau'r cyngor ac amcanion strategol, a datblygiad gyrfaol a hynny drwy ei drafodaethau | • System werthuso<br>• Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| blynyddol gyda staff, adolygiad blynyddol ar y gweithlu a rheolaeth talent effeithiol. | |
| **Ymgysylltiad gyda Gweithwyr a'u Boddhad** – Mae gan y cyngor sawl ffordd o ymgysylltu gyda gweithwyr, gan gynnwys holiaduron staff a mecanweithiau adborth eraill sy'n ffordd o gyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn fodd o sicrhau amgylchedd gwaith lle gall staff ffynnu a bod yn frwdfrydig. | • Presenoldeb staff<br>• Cadw staff<br>• Holiaduron staff<br>• Sesiwn Briffio Aelodau<br>• Fforwm Môn<br>• Y Ddolen<br>• Diweddariad gan y Prif Weithredwr<br>• Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 |

9% o Drosiant Staff yn 23/24

Cyfradd cadw staff o 94% yn 23/24

9.4 diwrnod o absenoldeb cyfwerth â llawn amser yn 23/24

Tud 33 – adroddiad blynyddol ar yr iaith Gymraeg 22/23 (23/24 ddim ar gael ar adeg drafftio) - cynnydd o 328% mewn lefelau presenoldeb ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg (640 yn 22/23, 195 yn 21/22)

Tud 28 – adroddiad blynyddol ar yr iaith Gymraeg 22/23 – swyddi wedi'u hysbysebu sy'n gofyn am ofynion iaith Gymraeg Lefel 3+ - 501 / 569 (88%)



DRAFT

# Rheoli Asedau

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Rheoli asedau yw'r broses systematig ar gyfer cynllunio, caffael, olrhain, cynnal a chadw, diweddaru a dyrannu asedau mewn ffordd effeithlon sy'n effeithiol o ran cost. Prif nod rheoli asedau yw gwella defnydd a pherfformiad asedau yn ogystal â lleihau risg a chostau yn ystod eu hoes. Dylai'r ffordd maent yn cael eu defnyddio hefyd gyd-fynd ag amcanion y cyngor.

Mae'r cyngor yn perfformio'n dda o ran Rheoli Asedau, ac mae ganddo nifer o gynlluniau ar waith i ddarparu ei amcanion yn llwyddiannus, fodd bynnag, mae angen gwaith ar nifer o asedau sydd angen eu moderneiddio neu eu dymchwel.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Stocrestr Asedau a Asesiad Cyflwr** – Mae gan y cyngor stocrestr gywir o'i holl asedau, gan gynnwys seilwaith, cyfleusterau ac offer ac mae'n asesu cyflwr yn rheolaidd er mwyn llywio gwaith cynnal a chadw a strategaethau adnewyddu. | • System Rheoli Asedau ar waith<br>• Rheolaeth Asedau TGCh ar waith |
| **Cynllunio Cylch Oes** – Mae'r cyngor yn sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw, eu hadnewyddu a'u disodli'n rhagweithiol sy'n gwella perfformiad a lleihau costau cysylltiedig a chylch oes. | • Cynllun Strategol Rheoli Asedau<br>• Cynllun Strategol Rheoli Asedau'r Gwasanaethau Tai<br>• Strategaeth Gyfalaf<br>• Strategaeth Moderneiddio Cymunedau sy'n Dysgu a Datblygu Strategaeth yr Iaith Gymraeg |
| **Rheoli Risg** – Mae'r cyngor yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer asedau er mwyn adnabod a lliniaru risgiau posibl, megis risgiau sy'n peryglu iechyd a diogelwch, amhariad i gydymffurfiaeth rheoleiddiol ac amhariad i wasanaethau. | • Arolwg ar gyflwr asedau<br>• Seiberddiogelwch diogelwch TGCh |
| **Monitro Perfformiad Asedau** – Mae'r cyngor yn monitro perfformiad asedau, yn enwedig defnydd ynni ac ymdrechion i gyflawni net sero, ac mae'n defnyddio'r data hwnnw i asesu effeithlonrwydd yr asedau, dibynadwyedd a darpariaeth gwasanaeth, ac mae'n gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddata. | • System Rheoli Asedau<br>• Cynllun Strategol Digidol<br>• Dangosfwrdd PowerBI ar gyfer Newid Hinsawdd gyda dangosyddion sy'n ymwneud â defnyddio ynni. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **Cydymffurfiaeth gyda Safonau a Reoliadau –** Mae'r cyngor yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau rheoli asedau perthnasol, rheoliadau ac arfer gorau ac mae'n dangos ymrwymiad i ansawdd, cysondeb a gwelliant parhaus. | • Adnabod ac ymateb i RAAC<br>• Arolwg ar gyflwr asedau<br>• Cod llywodraethu lleol - tudalen 7<br>• Polisiau Iechyd a Diogelwch |

Nifer yr anheddau – 36,300

Priffyrdd mewn cyflwr gwael A – 2.7%, B – 2.3%, C – 7.5%

Priffyrdd y cyngor sy'n cael eu cynnal fel rhwydwaith (22/23) - ffyrdd A – 12.2%, ffyrdd B – 10.3%, ffyrdd C – 30.5%, ffyrdd bach – 47%

Gwerth 738 milltir o ffordd yn cael ei gwasanaethu, 125 milltir ar yr arfordir

Dros 4000 o dai cymdeithasol

Nifer adeiladau'r cyngor (ac eithrio ysgolion) – 68, Nifer yr ysgolion – 46

Nifer y cerbydau sy'n eiddo I'r Cyngor – oddeutu 200

DRAFT

# Caffael a Rheoli Contract

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

At ei gilydd, mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o reolau a gweithdrefnau caffael, ac mae trefniadau rheoli contract yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae angen adolygu prosesau er mwyn alinio a bodloni'r disgwyliadau yn Neddf Caffael newydd 2023 a ddaw i rym ym mis Hydref 2024.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau** – Mae'r cyngor yn cydymffurfio gyda'r holl safonau a rheoliadau caffael, ac mae pob contract yn cael eu reoli felly pan fydd angen ei adnewyddu neu pan fydd angen un newydd. | • Canllaw Caffael<br>• Polisi Caffael TG<br>• Cytundeb a pholisi prosesu data<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Adolygiad Caffael STAR a Chynllun Gweithredu<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Cywirdeb ac Atebolrwydd –** Mae'r cyngor yn gywir ac yn atebol yn ei brosesau caffael a rheoli contractau, megis datgelu penderfyniadau caffael, telerau contract, a chanlyniadau perfformiad i randdeiliaid, sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn arferion caffael y cyngor. | • Strategaeth Rheoli Contractau<br>• Hyfforddiant caffael<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
| **Caffael Moesegol –** Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau. | • Polisi Caffael Cynaliadwy<br>• Polisi Caffael TG<br>• Diogelu mewn caffael a chontractio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 |
| **Rheoli Perfformiad –** Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

| | |
|---|---|
| **Rheoli Risg –** Mae'r cyngor yn cynnal asesiadau risg ac yn gweithredu strategaethau lliniaru risg mewn prosesau caffael a rheoli contractau sy'n helpu i nodi a mynd i'r afael â risgiau posibl, megis tarfu ar y gadwyn gyflenwi, anghydfodau contract, neu faterion diffyg cydymffurfio. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau caffael - £60m y flwyddyn

Nifer y contractau - 73

**Contractau Gwerth Uchaf -**

1. Gwasanaeth Rheoli Gwastraff (£100m)

2. Peirianneg Priffyrdd (£37.5m)

3. Contract Prydau Bwyd Ysgol (£8m)

4. Cyflenwr Ynni (£3.4m)

5. Contract Cyfreithiol Arbenigol (£3m)

DRAFT

# Rheoli Risg ac Archwilio

Yn bodloni disgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r cyngor. Mae'n helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol.

Mae'r cyngor yn monitro ac yn adolygu'r risgiau strategol a'r camau lliniaru a roddwyd ar waith yn rheolaidd i'w monitro ac mae ganddo berthynas ragorol â rheoleiddwyr ac archwilwyr. Mae prosesau a gweithdrefnau cyffredinol yn gryf ac mae diwylliant y sefydliad yn sicrhau eu bod yn arferion hanfodol mewn gweithgareddau dydd i ddydd.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Adnabod Risgiau –** Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Lliniaru Risgiau –** Mae'r cyngor yn dangos arferion rheoli risg rhagweithiol gyda'r nod o leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol trwy ddatblygu a gweithredu strategaethau a rheolaethau lliniaru risg effeithiol i fynd i'r afael â nhw. | • Strategaeth Rheoli Risg<br>• Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cofrestr Risg Strategol<br>• Cofrestr Risg Gwasanaeth<br>• Cofrestr Risg Prosiect<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24 |
| **Swyddogaeth Archwilio Mewnol** – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n un o elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth | • Strategaeth Archwilio Mewnol<br>• Siarter Archwilio Mewnol<br>• Diweddariadau Archwilio Mewnol |



DRAFT

| | |
|---|---|
| sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24 |
| **Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth –** Mae'r cyngor yn darparu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar reoli risg a rheolaeth fewnol i staff a rhanddeiliaid perthnasol sy'n sicrhau dealltwriaeth gyffredin o egwyddorion rheoli risg ac yn hyrwyddo diwylliant o ymwybyddiaeth risg ac atebolrwydd ar draws y sefydliad. | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 17-19 |
| **Archwilio Allanol a Rheolyddwyr –** Mae'r cyngor yn onest ac yn llwyr gefnogi ei archwilwyr allanol a rheoleiddwyr ar bob agwedd ar fusnes y cyngor gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, a gweithgareddau corfforaethol eraill sydd yn eu tro yn darparu dilysiad annibynnol o'i reolaethau a'i arferion mewnol. | • Adolygiadau Cenedlaethol ac argymhellion cysylltiedig<br>• Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru<br>• Adroddiadau Estyn<br>• Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru |

Cwblhawyd 84% o'r Archwiliadau o fewn chwe mis.

Archwiliwyd 82% o risgiau Coch/Ambr yn y Gofrestr Risg Strategol dros gyfnod treigl o 24 mis.

14 Risg Strategol – 13 gyda risgiau coch cynhenid, 7 gyda risgiau coch gweddilliol



DRAFT

# Rheoli Perfformiad

Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau

## Sut ydyn ni'n perfformiad ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu ein blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion strategol, amcanion gwasanaeth ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau a neilltuwyd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Mae gan y cyngor awydd cryf i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n onest wrth adolygu ei ddangosyddion perfformiad allweddol, gweithgareddau blynyddol a threfniadau monitro.

## Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

| Cryfderau a Nodwyd | Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol |
|---|---|
| **Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol –** Mae gan y cyngor amcanion sydd wedi'u diffinio'n glir a DPAau mesuradwy sy'n cyd-fynd â'i flaenoriaethau strategol a'i nodau darparu gwasanaeth. | • Cynllun y Cyngor<br>• Dogfen Gyflawni Blynyddol<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |
| **Casglu a Dadansoddi Data –** Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth drwy fonitro data'n rheolaidd, dadansoddi data a nodi tueddiadau o'r data i wneud penderfyniadau gwybodus. | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth<br>• Dangosfyrddau PowerBI<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 |
| **Monitro ac Adrodd Rheolaidd –** Mae'r cyngor yn sicrhau atebolrwydd a chywirdeb o ran rheoli perfformiad drwy fonitro perfformiad yn erbyn DPAau sefydledig yn rheolaidd a chyflwyno adroddiadau chwarterol ar berfformiad i aelodau etholedig ac uwch arweinwyr, swyddogion, a'r cyhoedd. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn<br>• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) |
| **Diwylliant Gwelliant Parhaus** – Mae gan y cyngor ddiwylliant o welliant parhaus mewn arferion rheoli perfformiad, trwy adolygiadau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n galluogi'r | • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol<br>• Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 |

DRAFT

| | |
|---|---|
| cyngor i addasu i amgylchiadau sy'n newid, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac ysgogi gwelliant parhaus o ran darparu gwasanaethau. | |
| **Meincnodi a Chymharu** – Mae'r cyngor yn cymharu perfformiad â chynghorau eraill pryd bynnag y bo modd i sicrhau bod y perfformiad yn unol â'r disgwyliadau ac mae'n nodi meysydd i'w gwella. | • Stats Cymru<br>• Data Cymru<br>• Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi) |

95% o ddangosyddion yn wyrdd neu felyn yn erbyn y targed

Tueddiadau o un flwyddyn i'r llall – 22/41 dangosyddion cymaradwy (54%) wedi dangos gwelliant neu fod perfformiad wedi aros yr un fath.

- 71 o gartrefi gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd yn 23/24.
- Llwyddo i atal 97.2% o aelwydydd rhag dod yn ddigartref.
- Gwnaed penderfyniad o fewn 1 diwrnod gwaith ar gyfer 99.14% yr atgyfeiriadau y'u cyflwynwyd.
- Gwnaed penderfyniad am 96% o geisiadau cynllunio o fewn y cyfnod amser.

# Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Isod, gweler y meysydd sydd wedi'u nodi fel cyfleoedd i wella a'u monitro yn ystod 2024/25.

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 1. Mae'n rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol ar ôl mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023-2028. | • Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu olrhain a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol. | Trawsnewid | Medi 2024 |
| 2. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data. | • Cynllun strategol digidol<br>• Cwblhau asesiad aeddfedrwydd data i adolygu ein seilwaith data, sgiliau a chapasiti<br>• Gweithredu system teleffoni newydd | Trawsnewid | Mawrth 2025 |
| 3. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd. | • Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael<br>• Cyhoeddi Cynllun Strategol Caffael | Adnoddau | Ebrill 2026 |
| 4. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid. | • Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor<br>• Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)<br>• Adnabod arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen<br>• Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid | Adnoddau | Mawrth 2025 |

DRAFT

| Materion gwella a nodwyd | Camau i fynd i'r afael â'r gwendid | Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau. | • Cyhoeddi a gweithredu Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024- 2029 newydd<br>• Diweddaru a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd<br>• Rhesymoli asedau'r cyngor<br>• Rheoli ac ymateb i RAAC o fewn asedau'r cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Mawrth 2025 |
| 6. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill. | • Adolygu a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer yr Uned Ddarparu<br>• Gweithredu'r strategaeth rheoli risg pobl<br>• Moderneiddio'r wefan recriwtio a<br>• Gwella cyfraddau cadw staff mewn meysydd sy'n gweld trosiant uchel, yn enwedig swyddi sy'n arbenigol ac nad oes modd recriwtio ar eu cyfer yn rhwydd | Trawsnewid | Mawrth 2025 |

DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor – 2024

Isod, sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2024

| Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid | Y Cyngor Cyfan (cyfartaledd) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Gwasanaeth | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Rhagorol | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Rhagorol | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Cynllunio Ariannol | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Rhagorol | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Cynllunio Gweithlu | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Rhagorol | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |
| Rheoli Asedau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Caffael a Rheoli Contract | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Rheoli Risg ac Archwilio | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau |
| Rheoli Perfformiad | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Bodloni disgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau | Mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 13 Mehefin 2024 |
| **Pwnc:** | Dogfen Gyflawni Blynyddol 2024/25 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Gosod allan ein prif raglen waith ar gyfer 2024/25 er mwyn ein galluogi i wireddu ein amcanion strategol o fewn Cynllun y Cyngor |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Carwyn E Jones, Deilydd Portffolio Trawsnewid |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Carys Edwards |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gwyndaf Parry<br>01248 752111<br>GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

1. Cefnogi y Ddogfen Gyflawni Blynyddol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith

**2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae'r ddogfen gyflawni blynyddol yn gosod allan prif raglen waith y Cyngor ar gyfer 2024/25, fydd yn cyfrannu at wireddu ein amcanion strategol o fewn Cynllun y Cyngor

**3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a’r Gymraeg]**

**4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Sut mae'r Ddogfen Gyflawni arfaethedig yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor: 2023-2028?

2. Mae'r Ddogfen Gyflawni Blynyddol yn cynnig nifer uchelgeisiol o weithredoedd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Pa risgiau a heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth geisio cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd ar gyfer 2024/25?

3. Pa ansicrwydd ariannol sy'n bodoli i'r Cyngor wrth gyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2024/25 a sut y gellir lliniaru'r rhain?

**5. Cefndir / Cyd-destun**

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y gwaith y bydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2024/25 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a osodwyd yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Bydd hyn yn cael ei wneud a’i gyflwyno mewn modd cydweithredol tra hefyd yn cydnabod y bydd gweithgareddau dydd-i-ddydd y Cyngor hefyd yn cael eu gwireddu.

Bydd yr holl staff rheng flaen a staff cymorth yn rhan annatod o'i ddarpariaeth lwyddiannus.

**6 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Amherthnasol

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Fel yr uchod

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg**

Fel yr uchod

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Mae'r goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol wedi'u nodi yn y broses gosod cyllideb flynyddol.

| 8 – Atodiadau |
| --- |
| Atodiad A – Dogfen Gyflawni Blynyddol |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
| --- |
| Cynllun y Cyngor 2023-2028 |

# Dogfen Gyflawni Blynyddol 2024/25



**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2024

## Dogfen Gyflawni Flynyddol

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar y gwaith fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2024/25 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028.

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Amcanion Strategol

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

### Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

### Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

### Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

### Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

## Cynllun y Cyngor 2023-2028 – Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd


Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r ynys.

## Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y dogfennau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.



## Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2024/25 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026 | • Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor<br>• Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg |
| Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | • Adolygu'r Polisi Iaith Gymraeg |
| Defnyddio rhaglenni grant i ddatblygu'r Gymraeg yn yr economi a gyda busnesau | • Rhoi ar am y cynllun Arfor ar waith drwy<br>  ○ Ddarparu Grantiau Cymunedau Mentrus fusnesau<br>  ○ Cefnogi 30 o fusnesau i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg<br>  ○ Sicrhau bod Ynys Môn yn elwa o gynlluniau rhanbarthol |
| Ehangu ein cynnig o hyfforddiant er mwyn creu mwy o gyfleoedd i'n staff, a'n cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys ddatblygu eu sgiliau Cymraeg | • Darparu cyfleoedd i staff ac aelodau etholedig fel y gallant wella eu sgiliau iaith Gymraeg drwy:<br>  ○ Gynnal tri dosbarth iaith Gymraeg<br>  ○ Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br>  ○ Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle<br>• Hybu'r ap OgiOgi ap i annog rhieni a gwarcheidwaid i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gyda'u plant |

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2024/25 byddwn yn: |
|---|---|
| Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth | • Integreiddio'r ddarpariaeth gofal dydd yn ardal Caergybi o fewn y gymuned<br>• Ymgynghori ar y Strategaeth Gofal Dydd<br>• Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc a gadawyr gofal sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) ar ôl gadael yr ysgol drwy<br>    ○ Beilota hwb ymyrraeth gynnar yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, i dargedu disgyblion<br>    ○ Sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn dod yn ymwybodol o'r disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gynharach<br>    ○ Targedu gadawyr gofal rhwng 18-24 oed sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant<br>    ○ Dod o hyd i gyflogwyr lleol a gwasanaethau'r cyngor a all ddarparu profiad gwaith i bobl ifanc<br>• Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif<br>• Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif<br>• Gweithio gyda Medrwn Môn a defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol wedi'u teilwra, yn cynnwys hyfforddiant ystyriol o drawma i staff a'r gymuned ehangach a gweithio tuag at ddid yn Ynys sy'n Ystyriol o Drawma<br>• Moderneiddio clybiau ieuenctid ac adolygu'r ddarpariaeth i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol |
| Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth | • Agor cynlluniau byw â chymorth newydd yn y Fali a Rhostrehwfa<br>• Cynhyrchu rhaglen foderneiddio ar gyfer llety cymunedol<br>• Adleoli'r Gwasanaethau Arbenigol Plant o adeilad sydd newydd gael ei adnewyddu |

| | |
|---|---|
| Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol | • Cynyddu cyfranogiad yn yr hybiau cymunedol integredig drwy eu gwneud yn fwy hygyrch, darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau<br>• Lleoli'r gwasanaeth asesu cof (MAS) a'r gweithgareddau dementia ar y cyd yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni<br>• Datblygu Rhwydwaith Oed Gyfeillgar, gan ganolbwyntio ar wyth maes y Cymunedau Oed Gyfeillgar<br>• Cynnal Fforymau Pobl Hŷn mewn lleoliadau cymunedol i sicrhau bod gweithgareddau ar gael ar hyd a lled yr ynys<br>• 400 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif |
| Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth | • Dod o hyd i eiddo ar gyfer ein 4ydd a'n 5ed Cartref Clyd ar yr ynys<br>• Darparu cyfleoedd i ofalwyr ifanc fel y gallant gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yng nghanolfannau Môn Actif<br>• Gweithio gyda 250 o bobl ifanc i wella eu hiechyd a'u lles yn cynnwys cynnal gweithgaredd i gefnogi'r ymgyrch pwysau iach |

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2024/25 byddwn yn: |
|---|---|
| Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol | • Darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer athrawon a staff ategol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r unigolyn a'r ysgol<br><br>• Gyrru'r Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg yn ei blaen drwy<br>  ○ Agor yr adeilad Cyfnod Sylfaen newydd yn Ysgol y Graig<br>  ○ Ymgynghori ar ddatblygu Ysgol Uwchradd Caergybi<br>  ○ Cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ar yr ynys<br>  ○ Gwella Ysgol Santes Fair; a<br>  ○ Darparu ystafelloedd cymunedol yn Ysgol Morswyn, Ysgol Llanfawr ac Ysgol y Graig |
| Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol trwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg | ○ Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith<br>○ Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Uwchradd Caergybi<br>○ Sicrhau bod gan bob disgybl blwyddyn 6 gynllun i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg |
| Sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobol ifanc trwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned dysgu ar draws yr ynys | • Galluogi i blant a theuluoedd gael mynediad at raglenni sy'n cynnig gweithgareddau addysgol yn y gymuned y tu allan i oriau ysgol yn cynnwys gweithgareddau gyda Môn Actif, Gogledd Cymru Actif, y gwasanaeth ieuenctid, Urdd Ynys Môn a'r Cynllun Bwyd a Hwyl a chefnogi ymgyrch Pwysau Iach Iechyd Cyhoeddus Cymru i leihau gordewdra a phroblemau iechyd cysylltiedig yn ein cymunedau<br>• Sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael eu clywed drwy |

| | |
|---|---|
| | ○ Ddarparu cyfleodd iddynt ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus sy'n effeithio arnyn nhw<br>○ Trefnu i ysgolion ymweld â'r Cyngor a Siambr y Cyngor<br>○ Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm Plant a Phobl Ifanc a gwahodd siaradwyr gwadd; a<br>○ Sicrhau bod cynghorau ysgol yn cael cyfle i gwrdd â Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig Lleol ar gais<br>• Darparu cyfleodd i blant ysgol fynychu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol yn Oriel Môn ac Archifau Ynys Môn<br>• Cynyddu cyfleoedd llesiant yn ein hysgolion drwy<br>○ Gynnig cinio ysgol i 75% o ddisgyblion<br>○ Cefnogi ysgolion a disgyblion drwy'r rhaglen Ysgolion Iach a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl |
| Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol trwy gydol eu bywyd | • Gweithio mewn partneriaeth â Chymuned Ddysgu Gwynedd a Môn i gynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu i oedolion ar hyd a lled Ynys Môn |

## Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2024/25 byddwn yn: |
|---|---|
| Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II | • Paratoi Llwybr Ynni Targed ar gyfer stoc dai'r cyngor gan nodi sut y byddwn yn cwrdd â'r safonau gwres fforddiadwy a datgarboneiddio |
| Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd | • Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy |
| Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf | • Datblygu 30 o gartrefi newydd<br>• Prynu 15 o gyn dai cyngor yn ôl<br>• Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 eiddo gwag<br>• Helpu 10 prynwr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf |
| Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy | • Cynnal asesiad o'r farchnad dai leol a phrosbectws tai blynyddol |
| Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau | • Cynyddu'r gyfradd ymateb i ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf boed hynny drwy ein sianeli digidol, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb<br>• Moderneiddio a diweddaru'r system ffôn<br>• Gweithio tuag at ddiweddaru'r drysau mynediad mewn oddeutu 220 o dai a rennir yn barod ar gyfer y trosglwyddiad digidol |

## Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys:

| **Erbyn 2028 byddwn wedi:** | **Yn 2024/25 byddwn yn:** |
|---|---|
| Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel | • Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi.<br>• Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Great British Nuclear, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr |
| Cydweithio i wireddu amcanion economi cylcho | • Gweithio â Menter Môn i fuddsoddi'r 600k o gyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa'r Economi Gylchol i sefydlu lleoliadau 'trwsio' ar yr ynys |
| Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol | • Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr unedau busnes yn Amlwch a gweithio â phartneriaid i ddod o hyd i ragor o gyfleoedd ariannu cyfalaf<br>• Gyrru Strategaeth Canol Trefi Ynys Môn yn ei blaen drwy<br>    ○ Ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynlluniau Canol Trefi unigol<br>    ○ Darparu cyllid Trawsnewid Trefi a Chreu Lleoedd i 30 o fusnesau; a<br>    ○ Sicrhau cyllid i fwy na 10 cynllun gwella eiddo |
| Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol | • Parhau i weithredu Cynllun Adfywio Economi Gogledd Ynys Môn drwy sicrhau cyllid allanol gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)<br>• Gweithio gyda Stena, Llywodraeth y DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn a sicrhau cyfleodd buddsoddi ar gyfer Porthladd Caergybi, yn benodol<br>    ○ Cymeradwy'r achos busnes terfynol<br>    ○ Adfywio Porthladd Caergybi a sicrhau twf; a<br>    ○ Yr Awdurdod Iechyd Porthladd<br>• Cyflawni rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Caergybi<br>• Sefydlu 15 prosiect ar Ynys Môn a 10 prosiect rhanbarthol gydag arian o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU (UKSPF)<br>• Dylanwadu ar ddatblygiadau a datblygwyr y Rhaglen Ynys Ynni |

| | |
|---|---|
| Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr | • Cwblhau'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddech Naturiol Eithriadol (2023-2028)<br>• Croesawu 52 o longau mordeithio i'r ynys<br>• Cydweithio â Llywodraeth Cymru i wella'r gweithgareddau sydd ar gael i ymwelwyr |
| Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol | • Datblygu'r Rhaglen Tiroedd Llwyd a'i rhoi ar waith i ailddatblygu safleoedd diwydiannol hanesyddol yn cynnwys; safle Alwminiwm Môn, Rhosgoch, Octel (Amlwch) a Peboc, Llangefni |

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030:

| Erbyn 2028 byddwn wedi: | Yn 2024/25 byddwn yn: |
|---|---|
| Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed net sero erbyn 2030 o fewn cyrraedd | • Adolygu'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 a'i roi ar waith; cyhoeddi dashfwrdd i gasglu data ynglŷn ag allyriadau carbon ein hasedau mewnol a chyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ar allyriadau carbon erbyn mis Medi<br>• Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy ychwanegu 13 o gerbydau carbon isel i'r fflyd (yn ddibynnol ar gyfalaf a chyllid grant)<br>• Mabwysiadu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol CDLl) newydd – i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ac yna i Lywodraeth Cymru i'w gytuno<br>• Gosod systemau gwresogi carbon isel yn naw o adeiladau'r cyngor |
| Cynyddu cyfraddau ailgylchu | • Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r cyngor<br>• Gweithio gyda phartneriaid i yrru'r amcanion allweddol yn y Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu yn eu blaen er mwyn gwella'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu |
| Sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau | • Sicrhau bod pwyllgorau'n cael cyfle i ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau drwy ddiweddaru templedi adroddiadau<br>• Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru):<br>    ○ rhoi chwe chynllun bach ar waith<br>    ○ datblygu achos busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr<br>    ○ datblygu achosion busnes ar gyfer pedwar cynllun ar raddfa fawr<br>• Mabwysiadu a chyhoeddi strategaeth leol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd |
| Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys | • Rhoi cynlluniau teithio lleol ar waith yn Amlwch ac Ynys Cybi, yn ogystal â gwella'r seilwaith rhwng Malltraeth a Llanfairpwll<br>• Penodi cyflenwr pwyntiau gwefru cerbydau trydan i osod pwyntiau gwefru ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid grant) |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Mehefin 2024** |
| **Pwnc:** | **Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Awdurdod Lleol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 29) – ADRODDIAD TERFYNOL** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried canfyddiadau allweddol ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Awdurdod Lleol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 29)** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Massie Fowlie** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Gary Pritchard, Dirprwy Arweinydd a Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai**<br>**Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Aelodau lleol:** | **Perthnasol i bobl aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gymeradwyo adroddiad terfynol y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini ynghyd â'r canfyddiadau allweddol a'r 4 argymhelliad unigol fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn<br>**A2** gytuno i gyflwyno'r adroddiad terfynol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith (dyddiad i'w gadarnhau). |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Mae Tai yn un o'r 6 prif amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor → "Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref". Cynllun y Cyngor: 2023-2028 yw ein prif ddogfen strategol. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effaith bosib y penderfyniad ar:

- grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **CEFNDIR**

1.1 Fe ystyriodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] berfformiad y Cyngor ar ddiwedd Ch2: 2023/24 gan edrych yn benodol ar ddangosyddion perfformiad y Gwasanaethau Tai a oedd yn tanberfformio:

- **Dangosydd Perfformiad 28 –** nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- **Dangosydd Perfformiad 29 –** nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)

Yn sgil ei ystyriaeth, gwelwyd y Pwyllgor hwn yn penderfynu ar y camau gweithredu a ganlyn:

i. Dangosydd Perfformiad 28 – bod Grŵp swyddogion yn cwblhau prosiect tasg a gorffen i ddadansoddi'r tanberfformiad ar gyfer y dangosydd yma ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor gyda chynigion ar gyfer gwella. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ganfyddiadau'r ffrwd gwaith yma ym mis Mawrth 2024.

ii. **Dangosydd Perfformiad 29 – bod grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu o blith aelodau'r Pwyllgor hwn i adolygu perfformiad mewn mwy o fanylder gyda'r brîff i wella perfformiad yn erbyn y dangosydd drwy leihau nifer y**

[1] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2023

**dyddiau calendr a gymerwyd i ail osod tai gwag ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini.

**2. METHODOLEG, CWMPAS AC AMCANION**

2.1 **Methodoleg** – defnyddiwyd methodoleg seiliedig ar ddulliau ymchwilio a thechneg gwella sef SREDIM (dewis, cofnodi, archwilio, datblygu, gweithredu a chynnal), wrth gynnal yr adolygiad Sgriwtini. Cynhaliwyd 5 cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen dros gyfnod o 3 mis [2] (Chwefror - Mai, 2024)

2.2 **Mewnbwn** – cafwyd mewnbwn gan yr Aelodau a'r swyddogion a ganlyn yn ystod y broses adolygu:

- Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai
- Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151
- Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol a Thrawsnewid
- Pennaeth Gwasanaethau Tai
- Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol
- Rheolwr Gwasanaethau Technegol
- Rheolwr Cynnal a Chadw (Uned Cynnal a Chadw Tai).

2.3 **Cwmpas ac amcanion –** bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen edrych mewn mwy o fanylder ar yr agweddau a ganlyn:

**Data / Gwybodaeth yn Gysylltiedig â Pherfformiad**

- Diffiniad manwl gywir o Ddangosydd Perfformiad 29 ac unrhyw wybodaeth sy'n egluro sut y dylid dehongli'r Dangosydd Perfformiad Allweddol a sut y dylid mesur perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn
- Meincnodi'r data sydd ar gael fel y gellir ei gymharu â data Awdurdodau Lleol eraill
- Edrych mewn manylder ar berfformiad lleol yn erbyn Dangosydd 29 dros y 4 blynedd diwethaf
- Manylion y mesurau lliniaru a gynigiwyd yn ystod yr adrodd chwarterol ar danberfformiad Dangosydd 29 drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol
- Ceisiadau ar y gofrestr tai a cheisiadau a broseswyd
- Effaith Safon Ansawdd Tai Cymru II (WHQS II) ar berfformiad lleol

**Y Polisi Gosod Tai a'r Broses**

- Polisi gosod/dyrannu tai yn lleol, gweithdrefnau a phrosesau, dogfennau tenantiaeth

[2] Cyfarfodydd o'r Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini a gynhaliwyd ar 08/02/2024, 29/02/2024, 06/03/2024, 22/04/2024 a 07/05/2024

- Data ac amserlen yn gysylltiedig â'r broses osod - y timau dyrannu a thechnegol
- Strwythur a swyddogaeth y timau sydd ynghlwm â'r broses osod
- Safonau WHQS II a chyflwr ein stoc dai

2.4 **Aelodau'r Panel:**

- Cyng Ieuan Williams, Cadeirydd
- Cyng Keith Roberts, Is-gadeirydd
- Cyng Geraint ap Bebb
- Cyng Sonia Williams
- Cyng Arfon Wyn
- Cyng Dyfed Wyn Jones.

Ysgrifenyddiaeth – mae'r Tîm Sgriwtini wedi bod yn gyfrifol am bennu dyddiadau a pharatoi cofnodion y Grŵp Tasg a Gorffen.

## 3. SYLWADAU, PRIF GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION Y GRŴP TASG A GORFFEN

Mae crynodeb ynghlwm o sylwadau lefel uchel, prif ganfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen (**ATODIAD 1**).

I ddiweddu, mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnig yr argymhellion canlynol er sylw'r Pwyllgor Gwaith er mwyn gwella perfformiad lleol yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 29:

**A1 Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod targed lleol o 35 diwrnod calendr yn cael ei bennu ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 29 - ailosod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod)**

**A2 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer lleihau nifer y dyddiau a gymerir i ailosod unedau llety o'r perfformiad presennol i 35 diwrnod calendr. Fe ddylai'r cynllun gynnwys camau i leihau'r cyfnodau anghynhyrchiol yn y broses ailosod (Uned Cynnal a Chadw Tai)**

**A3 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i gwblhau gwaith ar 4 uned yr wythnos ar gyfartaledd ac i sicrhau bod unedau'n cael eu hailosod yn unol â'r targed diwygiedig**

**A4 Bod y Gwasanaeth Tai'n edrych ar brosesau ac amserlenni'r Uned Cynnal a Chadw Tai er mwyn lleihau'r amser sy'n cael ei golli ar hyn o bryd.**

Mae'r adroddiad sydd ynghlwm **(ATODIAD 2)** yn nodi ystyriaethau a sylwadau'r Grŵp Tasg a Gorffen ynghyd a'i argymhellion.

4. **YR AMSERLEN AR GYFER Y CERRIG MILLTIR SY'N WEDDILL FEL RHAN O'R BROSES**

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| Dyddiad i'w gadarnhau | **Pwyllgor Gwaith** – derbyn yr adroddiad terfynol gydag argymhelliad i gymeradwyo'r canfyddiadau a'r 4 argymhelliad unigol |
| I'w gadarnhau | **Cyhoeddi'r adroddiad terfynol** – ar wefan y Cyngor |

5. **ARGYMHELLION**
Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:
**A1** gymeradwyo adroddiad terfynol y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini ynghyd â'r canfyddiadau allweddol a'r 4 argymhelliad unigol fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn
**A2** gytuno i gyflwyno'r adroddiad terfynol i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith (dyddiad i'w gadarnhau).

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Effeithiau posib ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Effeithiau posib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| Oes – bydd rhaid cynnwys y costau yn y cynllun gweithredu bydd yn cael ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Tai erbyn mis Tachwedd / Rhagfyr 2024. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| **Atodiad 1 –** Crynodeb o sylwadau, canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen<br>**Atodiad 2** - Adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Awdurdod Lleol |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

**ATODIAD 1**

## GRŴP TASG A GORFFEN SGRIWTINI: GOSOD TAI'R CYNGOR (DP 29)
## CRYNODEB O SYLWADAU, CANFYDDIADAU ALLWEDDOL AC ARGYMHELLION Y PANEL

| | |
|---|---|
| | **SYLWADAU LEFEL UCHEL** |
| **Sylwad 1** | Mae'r Awdurdod Lleol yn perfformio'n dda o ran eiddo gwag o'i gymharu ag Awdurdodau eraill a Chymdeithasau Tai. Mae gan yr Unedau Datrysiadau Tai a Chynnal a Chadw Tai systemau da ar gyfer gweinyddu'r broses osod |
| **Sylwad 2** | Mae'r amrywiant yn niferoedd yr eiddo gwag fesul mis (amrywio o 6 → 26) yn arwain at ôl-groniad sy'n anodd mynd i'r afael ag o. Mae hyn yn ei dro'n golygu ei bod hi'n cymryd mwy o amser i osod unedau sydd drwy hynny'n cael effaith negyddol ar berfformiad |
| **Sylwad 3** | Mae incwm rhent yn cael ei golli pan fo'r ôl-groniad yn uchel |
| **Sylwad 4** | Rydym yn wynebu argyfwng tai digynsail gyda nifer uchel o bobl yn methu â phrynu tŷ ac mae'r pwysau gwleidyddol yn golygu bod yr Awdurdodau Lleol sydd wedi cadw eu stoc dai dan y chwyddwydr |
| **Sylwad 5** | Fel all WHQS II gynorthwyo'r broses eiddo gwag |
| | |
| | **CANFYDDIADAU ALLWEDDOL** |
| **Canfyddiad Allweddol 1** | Y Tîm Datrysiadau Tai wedi dod o hyd i ddatrysiadau a all arbed ychydig o ddyddiau. Mae hyn yn dangos diwylliant o welliant parhaus y gellir adeiladu arno |
| **Canfyddiad Allweddol 2** | Bod gan y Tîm Datrysiadau Tai a'r Uned Cynnal a Chadw Tai systemau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r broses eiddo gwag |
| **Canfyddiad Allweddol 3** | Bod yr Uned Cynnal a Chadw Tai angen mwy o adnoddau er mwyn sicrhau cysondeb o ran nifer y dyddiau a gymerir i osod unedau |
| | |
| | **ARGYMHELLION** |
| **A1** | Argymell i'r Pwyllgor Gwaith bod targed perfformiad lleol o 35 diwrnod calendr yn cael ei bennu ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 29 – ailosod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod) |
| **A2** | Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer lleihau nifer y dyddiau a gymerir i ailosod unedau llety o'r perfformiad presennol i 35 diwrnod calendr. Fe ddylai'r cynllun gynnwys camau i leihau'r cofnodau anghynhyrchiol yn y broses ailosod (Uned Cynnal a Chadw Tai) |
| **A3** | Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i gwblhau gwaith ar 4 uned yr wythnos ar gyfartaledd ac i sicrhau bod unedau'n cael eu hailosod yn unol â'r targed diwygiedig |

| | |
|---|---|
| **A4** | Bod y Gwasanaeth Tai'n edrych ar broseau ac amserlenni'r Uned Cynnal a Chadw Tai er mwyn lleihau'r amser sy'n cael ei golli ar hyn o bryd. |

**ATODIAD 2**

## Adroddiad ar gasgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen Eiddo Gwag

1. Cyflwyniad

   Ar ôl edrych ar y Cerdyn Sgorio corfforaethol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Tachwedd 2023 penderfynwyd sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu perfformiad Dangosydd 29 - nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) - a oedd yn goch, gyda pherfformiad o 48 diwrnod yn erbyn targed o 40 diwrnod. Roedd y ffigwr hwn uwch na'r 30 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer yn un cyfnod yn 2022/23 a'r 35 diwrnod a gofnodwyd yn 2021/22.

   Mae'r dangosydd hwn yn effeithio ar ddangosydd 30, canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag. Roedd y cerdyn sgorio'n nodi bod y rhent a gollwyd yn 1.58%. Gan dybio bod cyfanswm y rhent a gesglir oddeutu £22.5 miliwn mae hyn gyfystyr ag oddeutu £355,500 y flwyddyn. Drwy leihau nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag neu osod targed newydd yn seiliedig ar atgyweirio neu adnewyddu eiddo cyn gynted â phosib gallwn leihau'r incwm yr ydym ni'n ei golli.


   Yn y misoedd yn dilyn hyn sefydlwyd grŵp tasg a gorffen a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer y grŵp, gweler Atodiad 1. Penderfynwyd defnyddio methodoleg SREDIM - dewis (y broblem), cofnodi (y broses gyfredol), archwilio (y broses gyfredol), datblygu (proses newydd neu nodi'r broblem), gweithredu (y broses newydd neu'r argymhellion), cynnal (y sefyllfa sydd wedi gwella).

   Cyfarfu'r grŵp yn anffurfiol ddechrau mis Chwefror i benderfynu ar gyfres o gwestiynau er mwyn dechrau ar y gwaith, gweler Atodiad 2. Ar ôl derbyn y cwestiynau gan y grŵp a chyfres o gwestiynau a oedd wedi'u hysgrifennu gan y swyddogion Sgriwtini, aeth staff y gwasanaeth tai ati i baratoi gwybodaeth fanwl i helpu'r grŵp ddeall y broses o osod tai'r awdurdod lleol. Gweler Atodiad 3 a 4. Cawsom hefyd gopi o'r ddogfen Safonau Gosod – Atodiad 5, a'r cytundeb/contract tenantiaeth newydd – Atodiad 6.

   Yn dilyn hyn cyfarfu'r grŵp ar 5 achlysur:

   8 Chwefror - i gytuno ar y Cylch Gorchwyl a thrafod y fethodoleg
   4 a 6 Mawrth - i gwrdd â staff yr Adran Dai i'w holi ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd.
   19 Mawrth – i gwrdd â'r Uned Cynnal a Chadw i ddeall y broses atgyweirio yn well.
   22 Ebrill – i drafod y cynnydd hyd yma.

2. Cofnod – dogfennu'r broses o osod eiddo.
   Mae'r siartiau llif isod yn nodi'r broses a ddilynir gan y Tîm Datrysiadau a'r Uned Cynnal a Chadw tai.


VOIDS PROCESS – ALLOCATIONS PERIOD
NTQ/EOT
NEW TENANCY
SOLUTIONS
HMU
Notice to Quit (NTQ) received from customer
Acknowledgement letter sent to customer
VOID process completed on Orchard, email sent to VOIDS group & Energy Angels informed
Death notification given to Solutions (NTQ)
Attempt to contact next of kin by phone & acknowledgement letter sent
Keys received by Cyswllt Mon or O'Toole Centre
Notification of Abandonment / Eviction received from HMO
Update Orchard with EOT & send email to EOT group
Keys issued to HMU
List compiled
Pre-tenancy checks carried out e.g. OT, TC, FIO until reach suitable applicant
Offer made
Offer accepted
Offer rejected
Refusal processed on Orchard & reasons recorded
HMO advised of sign up
Sign up completed by HMO at agreed date. Tenancy commences & Orchard updated
Notified of handover date & keysafe number
3 Day Process – Lock change, key safe & landlord safety checks
Inspection – input clearance
Commence VOIDS process: Designated as 3/8/13/18 or major works property
Works completed within time scales
Handover completed; Solutions / HMOs emailed with relevant paperwork / keysafe number

Y broses a ddilynir gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai

Y 3 diwrnod cyntaf

1. Y Tîm Gosod yn anfon ebost i ddweud y bydd y goriadau ar gael y diwrnod canlynol.

2.Nodi’r goriadau ar y daenlen eiddo gwag.

Amserlenwyr i ddechrau ar y broses drwy gofnodi’r gwaith. Newid cod y cwpwrdd goriadau, newid y cloeau a chwblhau gwiriadau nwy a thrydan a chael tystysgrifau cyn pen 3 diwrnod.

3. Ar y 3ydd diwrnod (neu cyn hynny) cwblhau archwiliad technegol cynhwysfawr o’r eiddo i weld faint o waith sydd ei angen fesul ystafell, asesu’r sefyllfa o ran asbestos a nodi’r gost neu’r tâl y gellir ei ailgodi am glirio’r eiddo, ynghyd â mesur pob ystafell.

Ar ôl y 3 diwrnod cyntaf

4. Ar ôl cwblhau'r archwiliad technegol, bydd yr archwiliwr yn:

Uwchlwytho'r holl luniau i Accuserve.

Ar ôl darllen y mesuryddion dylid cofnodi'r wybodaeth ar Energy Angles i glirio unrhyw ddyledion a hawlio unrhyw gredyd.

Creu adroddiad technegol cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl waith angenrheidiol – clirio, sgipiau, manylion ac archebion, cadarnhau a oes asbestos yn yr eiddo, gwirio oed y gegin, ystafell ymolchi a'r bwyler yn unol â WHQS, nodi unrhyw waith cyfalaf, craffu ar y polisi lleithder a llwydni, ac yna cwblhau arolwg lleithder ac anwedd os oes angen.

5. Ar y bwrdd gwaith:

Defnyddio'r porth Energy Angles i gofrestru'r pŵer ac unrhyw gyfleustodau yn enw CSYM, fel y gellir adfer y pŵer er mwyn dechrau ar y gwaith.

Trefnu archwiliad o'r gegin gan un o'n cyflenwyr os oes angen cegin newydd.

Nodi'r manylion ar y siart gantt i greu amserlen amcangyfrifiedig.

Cofnodi'r digwyddiadau ar y system Accuserve i gyd-fynd â'r siart gantt o dan y codau archebu cywir (CT a CA), fe all hyn gynnwys cofnodi 50+ o ddigwyddiadau unigol.

Ychwanegu unrhyw asesiadau risg, adroddiad asbestos a marciwr UDC i'r adroddiad technegol cynhwysfawr.

Cysylltu â'r storfa i archebu'r deunyddiau, sgipiau a sgaffaldau ac ati ar gyfer y gwaith a threfnu iddynt gael eu danfon i'r safle.

6. Y Gwaith:

Monitro cynnydd a chwblhau unrhyw waith ychwanegol os oes angen.

Cofnodi unrhyw waith ychwanegol ar Accuserve a thrafod hynny gyda'r amserlenwyr a goruchwylwyr y gwaith.

Cadarnhau bod yr eiddo'n barod i gael ei baentio/bapuro ac archebu deunyddiau.

Cadarnhau bod yr eiddo yn barod i'w garpedu ac archebu carpedi.

7. Cynnal gwiriad 48 awr cyn trosglwyddo i sicrhau y gellir cwblhau'r gwaith ar amser, trefnu gwaith munud olaf os oes angen

8. Creu ffolder cyn trosglwyddo'r eiddo, sy'n cynnwys yr isod:

Adroddiad technegol cynhwysfawr

Tystysgrif tanwydd

Tystysgrif legionella

Tystysgrif EPC

Taflen cydymffurfio â WHQS

Llenyddiaeth lleithder a llwydni

Sicrhau bod digon o bŵer yn y mesurydd i ailgomisiynu'r eiddo.

9. Cwblhau trosglwyddiad technegol, sicrhau bod y ffeil trosglwyddo yn cael ei gadael yn yr eiddo.

Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei sganio a'i anfon at y Tîm Datrysiadau.

Rhoi'r goriadau yn y cwpwrdd goriadau, sicrhau bod yr eiddo wedi'i gloi.

3. Archwilio – dadansoddi'r broses

Mae'r Tîm Datrysiadau wedi dod o hyd i 6 maes sy'n peri problem, gweler Atodiad 3 i gael y manylion:

1. Unedau llety lle mae therapydd galwedigaethol yn gysylltiedig â hwy.
2. Eiddo sensitif i'w gosod.
3. Trosglwyddiadau byr rybudd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai.
4. Unedau llety lle mae angen asesiad cynhwysiant ariannol.
5. Derbyn y goriadau gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai.
6. Arwyddo cytundebau dros y ffôn.

Mae'r rhan nesaf yn nodi'r datrysiadau sy'n cael eu cynnig gan y Tîm Datrysiadau.

Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn nodi 14 maes sy'n dylanwadu ar gymhlethdodau'r broses adnewyddu:

1. Cafodd y targedau ar gyfer eiddo gwag eu gosod cyn i dargedau Rhentu Cartrefi Cymru (RHW), Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), Lleithder a Llwydni a thargedau eraill gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi cael eu diwygio i ystyried y gwaith ychwanegol o ganlyniad i'r deddfwriaethau newydd.
2. Disgwyliadau tenantiaid, o ganlyniad i gymharu ein heiddo ag eiddo newydd, o gofio bod mwyafrif ein stoc rhwng 80 - 100 oed.
3. Y nifer uchel o dai sy'n cael eu dychwelyd mewn cyflwr gwael.
4. Prinder gweithwyr/contractwyr a goruchwylwyr i gefnogi meysydd eraill megis gwaith cynnal a chadw ymatebol, yr amserlenni tynn ar gyfer cwblhau gwaith cynnal a chadw blaenoriaeth a rheoli gwyliau ac absenoldebau staff. Mae'r ffaith bod ymweliadau bellach drwy apwyntiad yn unig yn gwneud pethau'n waeth.
5. Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai yn cael trafferth addasu i gyfnodau prysur a thawelach oherwydd y modd y mae goriadau'n dod i mewn. Maent yn cael trafferth rheoli oddeutu 50 eiddo gwag ar yr un pryd.
6. Clirio eiddo, pan fydd tenantiaid yn gadael sbwriel a hen ddodrefn yn yr eiddo.
7. Erbyn hyn mae'n rhaid i'n heiddo gael eu hadnewyddu yn hytrach na chyrraedd yr isafswm ar gyfer eu gosod.
8. Delio â gerddi a ffensys, pan fydd tenantiaid wedi codi siediau a ffensys ayb, sydd angen eu tynnu, eu diogelu neu eu adfer ar gyfer y tenantiaid newydd.
9. Pryderon TG, fe all gymryd amser i reoli eiddo gwag ar Accuserve.
10. Cwrdd â safonau Llywodraeth Cymru. Cyn Covid roedd 20% o'r unedau angen gwaith sylweddol ar gyfartaledd. Erbyn hyn, mae 80% angen gwaith sylweddol gan fod rhaid gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi wrth i ni baratoi ar gyfer WHQS2.

11. Mae’n bosib y bydd pob un angen gwaith sylweddol yn fuan, a bydd rhaid paentio/papuro a gosod carpedi/lloriau newydd ym mhob eiddo o leiaf yn sgil WHQS 2023.
12. Safonau newydd deddf Rhentu Cartrefi Cymru (papuro/paentio, gosod lloriau/carpedi a larymau mwg ychwanegol), gwaith Cyfalaf (drysau ffrynt a chefn, systemau gwresogi E7, cyfnewid bwyleri) a Lleithder a Llwydni (systemau awyru mewnbwn positif (PIV) a ffaniau lleithder) – gwaith sy’n rhaid ei gwblha tra bo’r eiddo’n wag.
13. Cwblhau gwaith lleihau carbon (cael gwared ar lefydd tân a bwyleri olew a gosod systemau gwresogi trydan).
14. Trafferthion â chwmnïau cyfleustodau yn gysylltiedig â phŵer a mesuryddion.

Trafodwyd y materion hyn yn ystod y cyfarfod â’r Uned Cynnal a Chadw Tai ar 19 Mawrth ac maent yn cael sylw yn y rhan nesaf.

4. Datblygu – datrysiadau posib i’r problemau a nodwyd.

Mae’r Tîm Datrysiadau wedi meddwl am ddatrysiad i’r 6 maes a nodwyd. Maent yn cynnwys:

1. Cyfyngu nifer y cyfeiriadu Therapydd Galwedigaethol i 2 eiddo, fel y gall y Tîm Datrysiadau edrych ar restrau eraill pe byddai’r ymgeisydd yn cyrraedd brig y rhestr ar gyfer eiddo arall.
   Pennu dyddiad ar gyfer derbyn adborth gan y Therapydd Galwedigaethol os ydi’r goriadau ym meddiant yr Uned Cynnal a Chadw Tai - e.e. cyn pen 5 diwrnod gwaith. Os na fydd unrhyw adborth yn dod i law bydd y swyddog datrysiadau’n parhau â’r rhestr.
   Bydd y Tîm Datrysiadau yn anwybyddu’r cyfeiriad i’r Therapydd Galwedigaethol os ydi’r eiddo’n fyngalo ac os mai dim ond LAS sydd ei angen - yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth rheolwyr.
2. Adolygu’r polisi a’r broses ar gyfer gosod eiddo sensitif. Trefnu cyfarfod 30 munud gyda’r Swyddog Rheoli Tai / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i drafod ymgeiswyr yn hytrach nag anfon e-bost ac aros 5 diwrnod am ateb.

3. Derbyn e-byst trosglwyddo yn gynt i fel y gall y Tîm Datrysiadau ddod o hyd i denant cyn gynted â phosib, ond egluro wrth y cwsmer ei bod hi’n bosib y bydd oedi wrth drosglwyddo’r eiddo. Egluro bod hynny oherwydd bod yn rhaid carpedu a phapuro/paentio’r eiddo cyn y cânt symud i’r eiddo. Fodd bynnag, os caiff y cytundeb ei gwblhau o bell (h.y. dros y ffôn) yna bydd yn golygu rhoi rhif y cwpwrdd goriadau iddynt unwaith y bydd y trosglwyddiad wedi’i gwblhau. Bydd hyn yn digwydd dim ond os caiff y cytundeb ei arwyddo dros y ffôn ac nid wyneb yn wyneb.

4. Bydd y tîm datrysiadau a'r arweinydd tîm Cynhwysiant Ariannol yn adolygu eu capasiti pob 2 fis ac os oes modd iddynt gwblhau'r asesiad cynhwysiant ariannol er mwyn arbed amser byddant yn gwneud hynny. Os ddim, bydd y Tîm Datrysiadau yn parhau i asesu fforddiadwyedd ymgeiswyr sy'n gweithio'n llawn amser ac sydd ddim yn derbyn unrhyw fudd-daliadau/credyd cynhwysol, fodd bynnag bydd rhaid atgoffa'r gwasanaeth gofal cwsmer i annog ymgeiswyr i gwblhau'r ffurflen Incwm a Gwariant wrth gwblhau'r ffurflen gais.

5. Staff yr Uned Cynnal a Chadw Tai i fynd yn ôl i'r arfer o nôl goriadau o'r swyddfa yn Llangefni pan maent yn pasio yn ystod y dydd.

6. Cynnig cyfle i ymgeiswyr arwyddo cytundebau dros y ffôn, fodd bynnag nid hwn fydd yr opsiwn diofyn a dylid cynnig iddynt wneud hynny wyneb yn wyneb a chael y goriadau'r un diwrnod. Os ydynt yn dewis gwneud hynny wyneb yn wyneb bydd y Swyddog Datrysiadau'n anfon copi o'r contract meddiannaeth atynt dros e-bost ymlaen llaw er mwyn arbed amser yn ystod yr apwyntiad.

Cafodd rhai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai eu trafod yn ystod y cyfarfod ar 19 Mawrth. Nid yw Accuserve yn achosi problemau ond nodwyd yr amser a gymerir i gofnodi pob darn o waith yn fanwl. Mae'r wybodaeth ychwanegol o fudd pan mae'n rhaid i'r Cyngor dystiolaethu ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion ychwanegol.

Y prif fater yw adnoddau. Rhannodd rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai y siart gantt/daenlen ar gyfer yr eiddo gwag a oedd yn amlygu'r broblem. Ar 19 Mawrth roedd 46 eiddo gwag ar y system gyda 31 o'r rhain (67%) angen gwaith sylweddol. Roedd y siart gantt yn ymdrin â chyfnod o 12 diwrnod. Pe byddem yn lluosi'r dyddiau hynny â'r 46 eiddo yn y system byddai gennym 552 diwrnod lle gallem fod yn gweithio ar yr holl eiddo pe byddai gennym ddigon o weithwyr. Roedd gennym adnoddau ar gyfer 201 diwrnod, sy'n golygu bod gennym 351 diwrnod heb neb yn gweithio ar yr eiddo, 64% o ddyddiau anghynhyrchiol.

Rhannodd rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai ddiweddariad ar y siart gantt yn gynnar ym mis Mai. Roedd nifer yr eiddo gwag wedi cynyddu i 59. Roedd 37 (63%) angen gwaith sylweddol. Roedd y siart gantt yn ymdrin â chyfnod o 19 diwrnod, rhwng y 3ydd o Fai a'r 31ain o Fai. Mae 59 eiddo gwag dros 19 diwrnod gyfystyr â 1121 diwrnod. Nid oedd gennym adnoddau ar gyfer 766 o'r rhain, ac felly roedd canran y dyddiau anghynhyrchiol wedi cynyddu i 68%.

Mae oddeutu 200 eiddo yn dod yn wag bob blwyddyn ac mae'r niferoedd yn amrywio o 6 y mis ym mis Gorffennaf ac Awst 2023 i 26 y mis ym mis Ebrill 2024.

Mae Rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai o'r farn y gallem adnewyddu tai sydd angen gwaith sylweddol mewn 25 diwrnod pe byddai gennym yr adnoddau.

Yr ateb syml yw cyflogi mwy o grefftwyr. Mae gan yr Uned Cynnal a Chadw tai ddau dîm sy'n gweithio ar eiddo gwag ar hyn o bryd. Mae'r timau hyn yn cynnwys 2 drydanwr, 2 blymwr, 2 saer, 2 blastrwr a 2 labrwr. Caiff crefftwyr allanol eu cyflogi yn ogystal i gwblhau gwaith megis gosod ceginau. Yn aml iawn mae'n rhaid i'r timau Eiddo Gwag gwblhau gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd pan fydd staff ar wyliau neu yn sâl. Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai wedi gweithredu'n fewnol ers 2015 ac nid yw erioed wedi cael ei staffio'n llawn.

Ar ôl trafod â'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Adran 151 mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn argymell:

1. Bod targed lleol o 35 diwrnod calendr yn cael ei bennu ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 29 - ailosod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod).

2 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer lleihau nifer y dyddiau a gymerir i ailosod unedau llety o'r perfformiad presennol i 35 diwrnod calendr. Fe ddylai'r cynllun gynnwys camau i leihau'r cyfnodau anghynhyrchiol yn y broses ailosod (Uned Cynnal a Chadw Tai).

3 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i gwblhau gwaith ar 4 uned yr wythnos ar gyfartaledd ac i sicrhau bod unedau'n cael eu hailosod yn unol â'r targed diwygiedig.

4 Bod y Gwasanaeth Tai'n edrych ar brosesau ac amserlenni'r Uned Cynnal a Chadw Tai er mwyn lleihau'r amser sy'n cael ei golli ar hyn o bryd.

Dylid ystyried y Cynllun Rheoli Asedau Tai newydd i gyrraedd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru yng nghyswllt eiddo gwag. Pe byddai uchafswm eiddo gwag yn cael ei bennu a'r gyfer cyfnod penodol a ddylid defnyddio cwmni allanol i ddod â'r niferoedd i lawr?

5. Gweithredu a chynnal

Dylid rhoi awgrymiadau'r Tîm Datrysiadau ar waith cyn gynted â phosibl.

Bydd cynllun busnes cynhwysfawr a manwl yn cael ei ddatblygu erbyn mis Rhagfyr er mwyn mynd i'r afael â 1 i 4 uchod. Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith yn ystod y chwe mis yn dilyn hynny a bydd y targed o 35 diwrnod yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2025.

6. Gwersi a ddysgwyd

Er bod y prosiect tasg a gorffen wedi bod yn brofiad gwerthfawr, dylid cwestiynu ai dyma’r ffordd fwyaf effeithiol o archwilio perfformiad? Mae’r pwyllgor wedi’i gyfyngu i ambell gyfarfod ac nid yw eisiau bod yn draul ar amser swyddogion sy’n gweithio mewn meysydd sensitif. Mae gan yr Awdurdod adain Trawsnewid ac fe allai’r Uwch Dîm Rheoli a’r Pwyllgor Gwaith ystyried eu hyfforddi mewn technegau i wella prosesau busnes. Efallai y dylid ystyried y gwaith hwnnw’n waith arferol a gwerthfawr os yw’n sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Byddai hyn gyfystyr â gwneud y Cyngor yn Awdurdod Dysgu fel yr awgrymwyd ym maes Addysg rai blynyddoedd yn ôl.

7. Sylwadau cyffredinol a diolchiadau

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cydnabod bod perfformiad yr Adran Dai ymysg y gorau yng ngogledd Cymru a bod pob Awdurdod a Chymdeithas Dai’n wynebu’r un heriau o ran ailosod eiddo gwag.

Rydym yn wynebu cyfnod digynsail ym maes tai. Mae 700 o bobl ar y rhestr aros ac mae landlordiaid preifat yn penderfynu gadael y farchnad dai. Drwy wella’n perfformiad gallwn helpu i leihau’r rhestr aros yn gynt.

Hoffai’r grŵp ddiolch i staff yr Adran Dai am eu hamser ac am ateb ein cwestiynau a darparu’r holl ddogfennau yr oedd arnom eu hangen.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **13 Mehefin, 2024** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Massie Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2024/25. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| --- |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
| --- |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2024/25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| --- |
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI Mai, 2024 → Ebrill, 2025**
**[Fersiwn dyddiedig 04/06/24]**

## Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â’r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]



| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2023/24 |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2024 | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor – adroddiad terfynol | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (12/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (17/09/24) - Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Medrwn Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2023/24 |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) - Addysg** |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 | Menter Môn |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24)** |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (14/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| Cynllun Strategol Môn Actif (i'w gadarnhau) | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Comisynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| | |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (04/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Siwrnai Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu’r Cynllun Llesiant |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Strategol Coed | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Strategol Tuag at Sero Net | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cynllun Strategol Caffael | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Adroddiad Blynyddol 2024/2045 (Mehefin, 2025) |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| Adroddiad Cynnydd Ch4:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) |
| | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol (Mawrth 2026) |